
WHIASU
Wales Health Impact Assessment Support Unit
Uned Gymorth Asesu Effaith ar Iechyd Cymru

GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

# **Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd:** Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd

## Adolygiad cyflym a diweddariad



Iechyd Cyhoeddus Cymru, Medi 2019

# Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd:
## Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd
## Adolygiad cyflym a diweddariad

Iechyd Cyhoeddus Cymru, Medi 2019


**Awduron**

Louisa Petchey, Liz Green, Nerys Edmonds, Mischa Van Eimeren, Laura Morgan, Sumina Azam a Mark A. Bellis


**Dyfyniadau a awgrymir:**
Petchey L, Green L, Edmonds N, Van Eimeren M, Morgan L, Azam S a Bellis MA. (2019). Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd Adolygiad cyflym a diweddariad. Caerdydd, Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.



ISBN 978-1-78986-154-23



© 2019 Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.
Gellir atgynhyrchu'r deunydd a geir yn y ddogfen hon yn unol â thelerau Trwydded Llywodraeth Agored (OGL)
**www.nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3/**
cyhyd â bo hynny'n cael ei wneud yn gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.
Dylid cydnabod Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

Mae hawlfraint y trefniant teipograffyddol hwn, y dyluniad a'r cynllun yn eiddo i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

# 1 Cyflwyniad




- Cafodd *Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd*[1] ei gyhoeddi ym mis Ionawr 2019 a'i nod oedd rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau allweddol yng Nghymru i baratoi at, a deall yn well, yr effeithiau gwahaniaethol posibl ar iechyd a llesiant y boblogaeth a allai ddigwydd pan fydd y Deyrnas Unedig (DU) yn gadael yr Undeb Ewropeaidd (UE) a sut y gallai unrhyw effeithiau ddod i'r amlwg dros y tymor byr, canolig a hir. Roedd yr Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (HIA) yn cynnwys ymrwymiad y byddai Iechyd Cyhoeddus Cymru yn *"adolygu, monitro a rhannu canfyddiadau allweddol yr HIA hwn fel mater o drefn, er mwyn llywio ymateb gwneuthurwyr polisïau a phenderfyniadau, gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau amlasiantaeth yng Nghymru."*

- Mae'r adolygiad cyflym a'r diweddariad hwn yn ystyried a **allai effaith bosibl Brexit ar iechyd y cyhoedd fod wedi newid** ac, os felly, sut y mae wedi newid ers cyhoeddi'r Asesiad, ac mae'n pennu **tebygolrwydd a difrifoldeb** unrhyw effeithiau/cyfleoedd cadarnhaol posibl ac effeithiau negyddol posibl ar iechyd a llesiant y cyhoedd yng Nghymru yn y tymor byr, canolig a hir.

- Y gobaith yw bod y ddogfen hon yn **adnodd defnyddiol i'r rhai sy'n ymwneud â chynllunio ar gyfer Brexit, paratoi ar ei gyfer, neu ymateb iddo** yng Nghymru. Ni ddylid ei ddefnyddio ar ei ben ei hun ond dylid ei ystyried ochr yn ochr â gwaith neu ymchwil arall sydd wedi'i wneud, neu sy'n cael ei wneud, mewn perthynas â Brexit.

- Er y bu rhai datblygiadau sylweddol yng nghyd-destun ac agenda Brexit, mae'r dadansoddiad diweddaraf hwn **yn cefnogi ac yn ategu dilysrwydd canfyddiadau'r HIA a gynhaliwyd ym mis Ionawr 2019,** gan gynnwys y llwybrau polisi allweddol a nodwyd. Cynghorir darllenwyr i gyfeirio at yr Adroddiad HIA ar Brexit (yn enwedig y Crynodeb Gweithredol a'r adroddiad ar y Prif Ganfyddiadau) i gael gwybodaeth a dadansoddiad manylach o berthnasedd yr effeithiau i Gymru.

- Mae hwn yn ddiweddariad amserol, o ystyried fod dros chwe mis ers cyhoeddi'r Asesiad ac yn yr amser hwn, mae newidiadau gwleidyddol sylweddol a newidiadau polisi wedi digwydd. Yn allweddol i hyn mae ymestyn Erthygl 50 tan 31 Hydref 2019 (adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn).

- Bydd Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i fonitro datblygiadau a chyhoeddiadau sy'n berthnasol i Brexit a'u goblygiadau o ran iechyd y cyhoedd yng Nghymru.

1 Iechyd Cyhoeddus Cymru. (Ionawr 2019). Goblygiadau Brexit yng Nghymru i Iechyd y Cyhoedd: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd. **http://www.wales.nhs.uk/sitesplus/888/news/50275**

# 2 Methodoleg

- Mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn cynnal chwiliadau rheolaidd o lenyddiaeth academaidd a llenyddiaeth lwyd sy'n berthnasol i Brexit ac iechyd y cyhoedd. Defnyddir y canfyddiadau i lunio rhestr ddarllen, a rennir gyda thros 100 o danysgrifwyr o Gymru a thu hwnt.

- Defnyddiwyd y rhestr ddarllen hon i nodi erthyglau allweddol a gyhoeddwyd rhwng 1 Ionawr 2019 a 13 Medi 2019, a dadansoddwyd y ffynonellau hyn i lunio'r adolygiad a'r diweddariad cyflym hwn.

- Mae'r asesiad hwn o dystiolaeth gyhoeddedig, sydd ar gael i bawb, wedi'i gynnal yn gyflym ac mae'n adlewyrchu 'ciplun' mewn amser. Ni ddylid ei ystyried yn asesiad cynhwysfawr na therfynol. Mae'r cyhoeddiadau allweddol a ddefnyddir i lywio'r dadansoddiad hwn i'w gweld yn Adran 7 (tudalen 27).



# 3 Gosod y cefndir: statws diweddaraf ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd a phroses Brexit

- Ni adawodd y Deyrnas Unedig (DU) yr Undeb Ewropeaidd (UE) ym mis Mawrth 2019 fel y bwriadwyd, ar ôl i'r DU ofyn am estyniad o Erthygl 50 gan yr UE tan 31 Hydref 2019. Ers mis Medi 2019, mae'n dal yn bosibl y gall y DU: **adael yr UE gyda Chytundeb Gadael wedi'i negodi** cyn y dyddiad hwn; gadael 'heb gytundeb' ar y dyddiad hwn; **gofyn am estyniad pellach i Erthygl 50** o'r UE (y gall yr aelod-wladwriaethau ei ganiatáu neu beidio); neu **atal y broses Brexit** yn gyfan gwbl.

- Ers i Boris Johnson ddod yn Brif Weinidog ar y DU ym mis Gorffennaf 2019, bu **pwyslais ychwanegol ar baratoadau ar gyfer gadael 'heb gytundeb'**. Mae Senedd y DU wedi pasio deddfwriaeth sy'n anelu at **atal Brexit 'heb gytundeb'** ac mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Prif Weinidog geisio estyniad pellach os na ellir negodi Cytundeb Ymadael erbyn 31 Hydref. Yn dilyn hynny, cynigiodd Llywodraeth y DU **Etholiad Cyffredinol** ond hyd yma nid yw'r gwrthbleidiau wedi cefnogi hyn gan eu bod am weld y ddeddfwriaeth sy'n ceisio rhwystro Brexit 'heb gytundeb' yn cael ei rhoi ar waith yn gyntaf.

- Mae **Llywodraeth Cymru wedi datgan ei chefnogaeth i ail refferendwm** ble y byddai'n **ymgyrchu i'r DU aros yn rhan o'r UE**. Mae hefyd wedi nodi y byddai'n croesawu Etholiad Cyffredinol ond dim ond os gellir sicrhau na fydd cyfnod yr etholiad yn golygu y byddai'r DU yn ymadael â'r UE 'heb gytundeb'.

- Mae Brexit yn dal i hollti barn y cyhoedd yn y DU, gydag adroddiadau bod nifer y cefnogwyr 'Aros' a 'Gadael' wedi aros yn gymharol gyson ac mewn sawl achos wedi dod yn fwy cadarn eu barn[2].

2 Britain Thinks. (Ebrill 2018). The Brexit Diaries: Current Public Opinion on Brexit. **http://britainthinks.com/pdfs/Brexit-Diaries-Ebrill-19_Full-Presentation.pdf**

# 4 Llwybrau polisi allweddol sy’n gysylltiedig â Brexit ‘heb gytundeb’




Mae’n bosibl y gallai’r DU **ymadael â’r UE ‘heb gytundeb’** ar 31 Hydref neu ryw ddyddiad yn y dyfodol, sydd heb ei ddiffinio eto. Mewn senario ‘dim cytundeb’, mae nifer o ddulliau polisi a llwybrau lle y gallai effaith bosibl Brexit effeithio ar iechyd a llesiant a phoblogaeth Cymru. Mae’r rhain yn cynnwys:

- **Effaith negyddol ar yr economi:** disgwylir i adael ‘heb gytundeb’ leihau twf economaidd yn fwy na senarios Brexit eraill, ond mae ansicrwydd ynghylch i ba raddau. Disgwylir i chwyddiant hefyd gynyddu pris cynhyrchion allweddol gan gynnwys bwyd ffres;

- **Mwy o rwystrau tariff a di-dariff i fasnach:** drwy adael ‘heb gytundeb’, bydd y DU yn masnachu gyda’r mwyafrif o wledydd ar reolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO), a fydd yn newid tariffau a/neu’r angen am wiriadau ar ffiniau. Gallai hyn effeithio ar hyfywedd busnes (ac felly swyddi) yn ogystal â chyflenwad a/neu gost rhai cynhyrchion fel bwyd a meddyginiaethau[3];

- **Colli cydweithrediad ac aliniad yr UE:** byddai cytundeb yn debygol o gynnwys cydweithredu parhaus ac aliniad rheoliadol rhwng y DU a’r UE, er enghraifft galluogi diogelwch cenedlaethol parhaus a rhannu data, gan atal dargyfeirio rheoliadol a allai rwystro cytundebau masnach â chenhedloedd-wladwriaethau eraill. Fodd bynnag, byddai gadael ‘heb gytundeb’ yn torri’r cysylltiadau hyn ac yn niweidio perthnasoedd gwleidyddol ac felly unrhyw barodrwydd o du’r UE i weithio gyda’r DU mewn meysydd megis ymchwil wyddonol a chydweithrediad ar ddiogelwch cenedlaethol

- **Mwy o ansicrwydd i wladolion yr UE o’r tu allan i’r DU sy’n byw yn y DU, a gwladolion y DU sy’n byw yn yr UE:** ar hyn o bryd nid yw’n eglur sut yr effeithir ar ddinasyddion yr UE o’r tu allan i’r DU sy’n gymwys i gael statws sefydlog, ond sydd eto i gofrestru gyda’r system, o ran ymadael ‘heb gytundeb’. O ran gwladolion y DU sy’n byw yn yr UE, byddai ymadael ‘heb gytundeb’ yn golygu ansicrwydd ynghylch eu gallu hirdymor i gael mynediad at wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill, er bod Llywodraeth y DU wedi gwarantu cyllid i ofal iechyd yn y tymor byr (6 mis).

- **Effaith gadarnhaol neu negyddol ar les meddwl:** mae tystiolaeth yn awgrymu bod rhai pobl yn teimlo bod Brexit eisoes yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a’u lles. Mae hyn yn cynnwys cymunedau ffermio lle y nodwyd bod maint yr ansicrwydd, gyda pheth ohono’n uniongyrchol gysylltiedig â Brexit, yn achosi pryder cynyddol ac yn cael effaith negyddol ar les meddwl[4]. O ystyried cryfder barn y cyhoedd ynghylch Brexit, mae’n bosibl y bydd canlyniad ‘heb gytundeb’ yn cael effaith ychwanegol bosibl, naill ai’n gadarnhaol neu’n negyddol, ar les meddwl. Gall ansicrwydd parhaus a/neu unrhyw darfu posibl ar wasanaethau a chyflenwadau fel bwyd a thanwydd, hefyd gael effaith (ychwanegol).

---


3 Yr Adran Fasnachu Rhyngwladol, Llywodraeth y DU. (Awst 2019). **Trading under WTO rules: How to trade with other countries if there is no UK trade agreement in place.**
4 Davies AR, Homolova L, Grey CNB, Fisher J, Burchett N, Kousoulis A. (Cyn-cyhoeddi). **Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd: fframwaith gweithredu i gefnogi iechyd meddwl a lles ffermwyr a’u teuluoedd**. Caerdydd: Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru a Sefydliad Iechyd Meddwl.

# 5 Newidiadau i effaith bosibl Brexit ar benderfynyddion iechyd a llesiant ers cyhoeddi'r Asesiad ym mis Ionawr 2019

**Nodweddion yr effaith:** Mae'r Asesiad yn defnyddio terminoleg benodol i ddisgrifio effaith, gan ddefnyddio'r disgrifyddion canlynol drwy gydol yr adroddiad ac yn y tablau sy'n dilyn:

| Math o effaith | |
|---|---|
| **Cadarnhaol** | **Negyddol** |
| Effeithiau yr ystyrir eu bod yn gwella statws iechyd neu'n rhoi cyfle i wneud hynny | Effeithiau yr ystyrir eu bod yn lleihau statws iechyd |

| Tebygolrwydd effaith | | |
|---|---|---|
| Confirmed | Tystiolaeth uniongyrchol gref e.e. o ystod eang o ffynonellau bod effaith eisoes wedi digwydd neu y bydd yn digwydd | Cadarnhawyd |
| Tebygol | Yn fwy tebygol o ddigwydd na pheidio. Tystiolaeth uniongyrchol ond o ffynonellau cyfyngedig | Tebygol |
| Posibl | Gall ddigwydd neu beidio. Tebygol, ond gyda thystiolaeth gyfyngedig i'w gefnogi | Posibl |
| **Dwysedd yr effaith** | | |
| Sylweddol | Arwyddocaol o ran dwysedd, ansawdd neu raddfa. Arwyddocaol neu'n ddigon pwysig i haeddu sylw, nodedig | Sylweddol |
| Cymedrol | Cyfartalog o ran dwysedd, ansawdd neu raddfa | Cymedrol |
| Isel | Isafswm, o ran swm, maint neu raddfa, dibwys | Isel |

| Newid mewn effaith ers mis Ionawr 2019 | |
|---|---|
|  | Dim newid |
|  | Mwy o debygolrwydd/ dwysedd - newid cadarnhaol |
|  | Llai o debygolrwydd/ dwysedd - newid cadarnhaol |
|  | Mwy o debygolrwydd/ dwysedd - newid negyddol |
|  | Llai o debygolrwydd/ dwysedd - newid negyddol |
| NEWYDD | Nodwyd effaith gadarnhaol bosibl newydd |
| NEWYDD | Nodwyd effaith negyddol bosibl newydd |

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi effeithiau allweddol posibl diweddaraf Brexit ar benderfynyddion ehangach iechyd a llesiant (neu grwpiau poblogaeth) yn seiliedig ar adolygiad cyflym a chyfyngedig o'r dystiolaeth gyhoeddedig sydd ar gael ar hyn o bryd. Efallai na fydd y dystiolaeth a gyflwynir yn adlewyrchu maint llawn y mesurau lliniaru a roddwyd ar waith, os nad yw'r rhain wedi'u cyhoeddi'n agored erbyn 13 Medi 2019. Nid yw hyd posibl yr effeithiau wedi'u cynnwys yn y diweddariad hwn gan yr ystyrir nad yw'r amserlenni yr adroddwyd arnynt yn flaenorol wedi newid. Gellir gweld cyfeiriadau yn adran 7 yr adroddiad hwn.

## Effaith gadarnhaol/cyfle

| Penderfynyddion | Effaith uniongyrchol | Arwyddocâd | | Newid ers Ionawr 2019 | | Sail resymegol | Llwybrau polisi dim cytundeb perthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Tebygolrwydd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Dwysedd | | |
| **Mynediad at fwyd iach, diogel a fforddiadwy** | Rheoliadau diogelwch bwyd | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Cyfle i gyflwyno rheoliadau a deddfwriaeth tynnach.<br>NAWR: Mae'r ffocws presennol ar newid rheoliadau tebyg at eu tebyg, yn hytrach na mynd ymhellach. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Safonau bwyd | Posibl | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Effaith gadarnhaol neu negyddol yn bosibl, yn dibynnu ar natur polisi a chytundebau masnach yn y dyfodol.<br>NAWR: Mae'r dystiolaeth ddiweddaraf yn cefnogi'r sefyllfa bresennol bod effeithiau cadarnhaol yn bosibl ond nid ydynt wedi dod yn fwy tebygol. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Cyfle i gynhyrchu bwyd yn fwy cynaliadwy yng Nghymru.<br>NAWR: Mae ymgynghoriad agored gan Lywodraeth Cymru yn nodi ei bod am flaenoriaethu rheoli tir a chynhyrchu bwyd yn gynaliadwy ond mae'r cynigion yn dal i fod ar gamau cynnar ac yn dibynnu ar benderfyniadau polisi Llywodraeth y DU. | |
| **Alcohol** | Patrymau yfed alcohol | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Llai o ddefnydd yn dilyn gostyngiad mewn incwm neu gynnydd yn y pris.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Economi |
| | Rheoliadau alcohol | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Cadarnhaol neu negyddol o ganlyniad i ddulliau rheoleiddio cryfach neu wannach mewn cytundebau masnach neu ddeddfwriaeth newydd.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Tybaco** | Defnyddio tybaco | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Llai o ysmygu o ganlyniad i ostyngiad mewn incwm neu gynnydd yn y pris.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Economi |
| | Rheoliadau tybaco | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Effaith gadarnhaol neu negyddol oherwydd dulliau rheoleiddio cryfach neu wannach mewn cytundebau masnach neu ddeddfwriaeth newydd.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| **Rheoliadau amgylcheddol** | Rheoliadau e.e. ansawdd aer, ansawdd dŵr ymdrochi | Posibl | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Effaith gadarnhaol neu negyddol oherwydd polisi cryfach neu wannach yn y dyfodol neu o ganlyniad i gytundebau masnach yn y dyfodol.<br>NAWR: Mae rheoliadau a llywodraethu amgylcheddol yn y dyfodol yn parhau i fod heb eu datrys. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| **Amodau economaidd: gweithlu a sgiliau** | Potensial i ddenu gweithwyr medrus i sectorau allweddol i Gymru o fewn y DU a gwledydd y tu allan i'r UE | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Darparu amodau gwaith a byw deniadol yng Nghymru, cyfle i ddatblygu sgiliau gweithlu'r DU.<br>NAWR: Wedi gweld llai o fewnfudo i'r DU o'r UE ond hefyd yn gweld ymfudo o'r tu allan i'r UE yn cynyddu felly mae'n aneglur a yw'r DU yn fwy deniadol ai peidio. Mae diffyg data cyhoeddus ar fewnfudo sy'n ymwneud yn benodol â Chymru. | |
| | Sgiliau a chyflogadwyedd | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Mwy o gyfle i gael mynediad at gyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth a datblygu'r sylfaen sgiliau yng Nghymru.<br>NAWR: Yn dal yn aneglur pa gyfleoedd cyllido a fydd ar gael yn y DU ar ôl Brexit i ddisodli cyllid Rhanbarthol yr UE. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Argaeledd swyddi/swyddi gwag | Posibl | Isel | ↔ | ↔ | CYNT: Cynnydd, efallai, mewn swyddi gwag, ond efallai bod ffactorau demograffig sgiliau yn golygu na ellir llenwi pob swydd wag yn hawdd. (Efallai na fydd y swyddi sydd ar gael i gyd yn gyflogaeth o ansawdd/"gwaith da" sydd o fudd i iechyd).<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amodau economaidd: Cyllid yr UE** | Buddsoddiad cymunedol, economaidd a seilwaith ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Cyfle i ddatblygu model(au) newydd a lefel y cyllid i ddiwallu anghenion poblogaeth Cymru.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn, er enghraifft manylion pellach Cronfa Ffyniant a Rennir y DU. | |
| | Polisi/cyllid amaethyddol a rheoli tir | Tebygol | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Cyfle i lunio a theilwra polisi amaethyddol presennol a'r dyfodol yng Nghymru.<br>NAWR: Mae Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar system daliadau newydd i Gymru. Fodd bynnag, mae'r cynigion yn dal i fod yn eu camau cynnar ac mae'r ddeddfwriaeth newydd a fyddyn sail i'r system wedi'i gohirio tan ar ôl etholiadau nesaf y Cynulliad yn 2021. Methodd Bil Amaethyddiaeth Llywodraeth y DU â chwblhau ei daith cyn addoedi'r Senedd ym mis Medi, gan olygu bod ansicrwydd ynghylch y system taliadau fferm ar ôl Brexit, a ph'un a fydd y ddeddfwriaeth ategol angenrheidiol ar waith, yn parhau[5]. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| **Amodau gwaith** | Gan gynnwys: iechyd a diogelwch, hawliau gweithwyr a chydraddoldeb, oriau gwaith | Posibl | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Potensial i bolisi yn y dyfodol drosglwyddo/ cryfhau hawliau gweithwyr yng Nghymru. Gallai cytundebau polisi a masnach yn y dyfodol gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol.<br>NAWR: Hyd yn hyn mae'r uchelgeisiau ar gyfer newid wedi bod yn gyfyngedig ond mae potensial ar gyfer newid cadarnhaol tymor hwy mewn amodau gwaith. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |

5 Roedd **Y Bil Amaeth** yn darparu ar gyfer ystod o bwerau galluogi i sicrhau "sefydlogrwydd" i ffermwyr wrth i'r DU ymadael â pholisi Amaethyddol Cyffredin yr UE a chydymffurfio â Chytundeb Sefydliad Masnach y Byd ar Amaethyddiaeth. Cyflwynodd hefyd fesurau newydd i newid y ffordd y mae ffermwyr a rheolwyr tir yn cael eu cefnogi yn y tymor hwy. **https://researchbriefings.parliament.uk/ResearchBriefing/Summary/CBP-8405**. Mae'r methiant i basio'r Mesur Amaethyddiaeth cyn i'r Senedd gael ei lluosogi yn golygu ansicrwydd parhaus i ffermwyr ynghylch sut olwg fydd ar y system talu fferm newydd ar ôl Brexit..

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol prydlon** | Staffio gofal iechyd | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Cyfle i hyfforddi mwy o wladolon y DU i weithio ym maes gofal iechyd.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU |
| | Mynediad at feddyginiae-thau, dyfeisiau meddygol a threialon clinigol | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Cyfle i ddatblygu yn sector fferyllol y DU, cynyddu gweithgynhyrchu yn y DU, cyfle i geisio trefniadau cydweithredu rhyngwladol eraill.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| **Grwpiau cysylltiedig ag oedran** | Plant | Posibl | Isel | ↔ | ↔ | CYNT: Cyfle i wella hawliau plant drwy ddeddfwriaeth Cymru.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Lles meddyliol |
| | Oedolion ifanc | Posibl | Isel | ↔ | ↔ | CYNT: Cyfle i ddatblygu sylfaen sgiliau yng Nghymru a mwy o swyddi ar gael. Fodd bynnag, mae cyfle wedi'i gyfyngu gan sgiliau a ffactorau demograffig.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| **Grwpiau cysylltiedig ag incwm** | Pobl sy'n byw ar incwm isel, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn tlodi bwyd a thanwydd | | | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Briff gwylio[6]: Gall arafu/dirywiad yn gysylltiedig â Brexit mewn prisiau tai fod o fudd i'r rhai sy'n ennill incwm isel/canolig sydd am brynu eu heiddo cyntaf, ond gallai ei gwneud yn anoddach gwerthu neu symud o dai o ansawdd gwael neu leihau'r gallu i roi cymhorthdal i adeiladu tai fforddiadwy. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Lles meddyliol |
| | Pobl sydd mewn perygl o ddiweithdra/ sy'n ddi-waith | Posibl | Isel | ↔ | ↔ | CYNT: Mwy o swyddi ar gael, ond mae sgiliau a ffactorau demograffig yn cyfyngu ar gyfle.<br>NAWR: Wedi gweld cynnydd bach yn nifer y bobl sydd mewn cyflogaeth yng Nghymru ond mae effaith bosibl Brexit ei hun ar gyflogaeth yn dal yn aneglur. Ni chynhwysir ansawdd y swyddi a grëir yn y ffordd y mae cyflogaeth yn cael ei fesur. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |

6 **Briff gwylio:** Dylid parhau i adolygu'r dystiolaeth yn y meysydd hyn, gyda monitro a gwyliadwriaeth hirdymor o lefelau effaith a gweithgaredd addasu er mwyn gallu cymryd camau pellach os oes angen

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau daearyddol** | Pobl sy'n byw mewn rhannau o Gymru sydd â dangosyddion gwael o ran yr economi ac iechyd/rhannau o Gymru sydd wedi elwa'n sylweddol ar gyllid yr UE | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Cyfle am fodel newydd a lefel cyllid i ddiwallu anghenion poblogaeth Cymru.<br>NAWR: Gweler buddsoddiad cymunedol, economaidd a seilwaith i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau. | Economi; Lles meddyliol |
| | Ffermwyr/ cymunedau gwledig | Tebygol | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Rhyddhau o'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, y gallu i gael mynediad at farchnadoedd newydd, a chyfle i lunio polisi amaethyddol yng Nghymru.<br>NAWR: Gweler polisi/cyllid amaethyddol a rheoli tir. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Lles meddyliol |
| | Trefi porthladdoedd | | | ↔ | ↔ | CYNT: Briff gwylio: Effaith bosibl ond dim tystiolaeth ddigonol ar hyn o bryd i ddiffinio'r effaith.<br>NAWR: Briff gwylio: Mae cynllun gweithredu 'heb gytundeb' Llywodraeth Cymru yn nodi nad oes disgwyl i'r broses o gyflwyno gwiriadau ffiniau/ tollau ychwanegol mewn porthladdoedd achosi problemau traffig ym mhorthladdoedd de-orllewin Cymru. Mae cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer Caergybi. | |
| | Trefi arfordirol e.e. gweithlu twristiaeth ac ansawdd dŵr ymdrochi | | | ↔ | ↔ | CYNT: Briff gwylio: Effaith bosibl ond dim tystiolaeth ddigonol ar hyn o bryd i ddiffinio'r effaith.<br>NAWR: Briff gwylio: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | |
| **Grwpiau eraill sy'n agored i niwed** | Perchnogion/ cyflogwyr busnesau bach sy'n mewnforio neu'n allforio nwyddau a gwasanaethau | | | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Briff gwylio: Mwy o gyfleoedd posib i gynyddu allforio oherwydd gwerth is y bunt Brydeinig (GBP). Effaith gadarnhaol bosibl yn dibynnu ar bolisi a chytundebau masnach yn y dyfodol ond yn ansicr ar hyn o bryd. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Lles meddyliol |

## Effeithiau negyddol

| Penderfynyddion | Effaith uniongyrchol | Arwyddocâd | | Newid ers Ionawr 2019 | | Sail resymegol | Llwybrau polisi dim cytundeb perthnasol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Tebygolrwydd | Dwysedd | Tebygolrwydd | Dwysedd | | |
| **Mynediad at fwyd iach, diogel a fforddiadwy** | System diogelwch bwyd | Tebygol | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Mae system diogelwch bwyd y DU yn agored iawn i newid ac ansicrwydd sy'n gysylltiedig â Brexit ac mae angen creu capasiti mawr mewn perthynas â deddfwriaeth, polisïau sefydliadau a'r gweithlu mewn amser byr iawn. NAWR: Mae pryderon ynghylch parodrwydd, gwytnwch a chynaliadwyedd y system yn wyneb mwy o gyfrifoldeb a galw ar wasanaethau wedi'u hategu gan y dystiolaeth ddiweddaraf. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Rheoliad diogelwch bwyd | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Colli deddfwriaeth diogelwch bwyd yr UE a'r angen i ddisodli hyn ar frys. NAWR: Mae'r ffocws cyfredol ar amnewid rheoliadau tebyg at eu tebyg ond mae ansicrwydd parhaus ynghylch y broses orfodi. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Safonau bwyd | Tebygol | Sylweddol | ↑ | ↔ | CYNT: Effaith gadarnhaol neu negyddol yn bosibl, yn dibynnu ar natur cytundebau polisi a masnach yn y dyfodol. NAWR: Mae tystiolaeth gryfach, uniongyrchol o effaith negyddol bosibl ar safonau bwyd ar ffurf amcanion masnach gyhoeddedig yr Unol Daleithiau. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Cyflenwad bwyd | Tebygol | Sylweddol | ↑ | ↔ | CYNT: Heriau'n ymwneud â'r gweithlu yn y sector amaeth, newidiadau i dollau a thariffau, a rheoliadau newidiol. Mae effaith negyddol yn debygol mewn senario "dim cytundeb". NAWR: Mae'r tebygolrwydd cynyddol presennol o Brexit 'heb gytundeb' yn golygu bod y siawns o darfu ar y cyflenwad bwyd yn y tymor byr hefyd wedi cynyddu. Mae cynllun gweithredu dim cytundeb Llywodraeth Cymru yn cynnwys camau i fynd i'r afael â chyflenwad bwyd mewn sectorau allweddol gan gynnwys ysgolion ac iechyd a gofal cymdeithasol. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU |
| | Cost bwyd | Tebygol | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Gallai unrhyw gynnydd mewn chwyddiant neu lai o dwf economaidd effeithio ar fforddiadwyedd bwyd ac incwm. Effaith gronnus gyda diwygio lles a chynnydd yn y defnydd o fanciau bwyd yng Nghymru. NAWR: Tystiolaeth bellach i gefnogi'r cynnydd tebygol mewn costau bwyd drwy'r dulliau hyn, yn ogystal â chwymp posibl yng ngwerth y bunt Brydeinig (GBP), yn enwedig mewn senario ymadael 'heb gytundeb'. | Economi; Rhwystrau i fasnachu |





| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Alcohol** | Patrymau yfed alcohol | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Mwy o ddefnydd oherwydd straen.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Lles meddyliol |
| | Rheoleiddio alcohol | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Effaith gadarnhaol neu negyddol o ganlyniad i ddulliau rheoleiddio cryfach neu wannach mewn cytundebau masnach neu ddeddfwriaeth newydd.<br>NAWR: Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yn ailgyflwyno alcohol di-dreth i deithwyr i/o'r UE pe bai'r DU yn ymadael 'heb gytundeb'. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| **Tybaco** | Defnyddio tybaco | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Mwy o ysmygu o ganlyniad i straen.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Iechyd a Llesiant |
| | Rheoleiddio tybaco | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Effaith gadarnhaol neu negyddol oherwydd dulliau rheoleiddio cryfach neu wannach mewn cytundebau masnach neu ddeddfwriaeth newydd.<br>NAWR: Mae tystiolaeth ychwanegol i awgrymu'r posibilrwydd o newidiadau caniataol i reoliadau ar e-sigaréts, sy'n gwrthdaro â safbwynt Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi ailgyflwyno tybaco di-dreth i deithwyr i/o'r UE pe bai'r DU yn ymadael 'heb gytundeb'. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| **Hawliau dynol** | Colli cymhwysiad Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn y DU | Tebygol | Cymedrol | ↑ | ↔ | CYNT: Colli amddiffyniadau o ran hawliau cymdeithasol, y gweithle a chydraddoldeb, nad ydyn nhw'n cael eu cydnabod yn llawn yng nghyfraith y DU ar hyn o bryd.<br>NAWR: Tystiolaeth bellach i gefnogi hyn - gallai'r DU weld bylchau llywodraethu mewn amddiffyniadau hawliau dynol gyda llai o gyllid ar gael i gefnogi prosiectau sy'n hyrwyddo hawliau dynol. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Diogelwch y cyhoedd a gorfodi'r gyfraith | Posibl | Cymedrol | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Mae tystiolaeth yn cefnogi risg bosibl o anufudd-dod sifil yn sgil Brexit 'heb gytundeb', yn gysylltiedig â thensiwn oherwydd Brexit neu brinder bwyd/tanwydd, a llai o bwerau gan yr heddlu oherwydd y diffyg gallu i ddefnyddio gwarant arestio'r UE a chydweithrediad trawsffiniol. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rheoliadau amgylcheddol** | Rheoliadau hy ansawdd aer, ansawdd dŵr ymdrochi | Tebygol | Sylweddol | ↑ | ↔ | CYNT: Effaith gadarnhaol neu negyddol oherwydd polisi cryfach neu wannach yn y dyfodol neu o ganlyniad i gytundebau masnach yn y dyfodol.<br>NAWR: Diffyg eglurder parhaus ynghylch llywodraethu rheoliadau amgylcheddol ac absenoldeb strwythurau trosiannol. Yn sgil gadael 'heb gytundeb', sydd wedi cynyddu o ran tebygolrwydd, bydd bwlch llywodraethu ar unwaith. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Rheoli gwastraff | Posibl | Isaf | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Yn sgil gadael 'heb gytundeb', sydd wedi cynyddu o ran tebygolrwydd, aflonyddwch posibl i allforio gwastraff i'r UE gyda'r potensial i gynyddu tirlenwi neu losgi. | Rhwystrau i fasnachu |
| **Amodau economaidd: gweithlu a sgiliau** | Heriau'n ymwneud â'r gweithlu mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant | Cadarnhawyd | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Mae sectorau sy'n arbennig o ddibynnol ar sgiliau o'r Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) yng Nghymru yn cynnwys y sector milfeddygol, y diwydiant cynhyrchu bwyd a diod, ac iechyd a gofal cymdeithasol. Daw nifer sylweddol o staff academaidd ym mhrifysgolion Cymru o'r UE/AEE. Mae newidiadau arfaethedig o ran mewnfudo a rhyddid i symud sy'n gysylltiedig â Brexit, yn her i gadw a recriwtio gweithwyr yn y dyfodol.<br>NAWR: Heriau recriwtio a chadw ym maes iechyd a llesiant a gadarnhawyd yn flaenorol ac mae'n flaenoriaeth barhaus. | Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| | Effaith economaidd oherwydd newidiadau mewnfudo | | | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Briff gwylio: Gall newidiadau posibl i batrymau mewnfudo effeithio ar yr economi yn gyffredinol neu mewn cymunedau lleol penodol. | Economi; Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| | Potensial i ddenu gweithwyr medrus i sectorau allweddol i Gymru o fewn y DU a chenhedloedd y tu allan i'r UE | Posibl | Cymedrol | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Mae newidiadau i ryddid symud a hawliau ymfudwyr sy'n byw yn y DU, yn enwedig wrth adael 'heb gytundeb', yn dal i fod yn ansicr, a allai weithredu fel ataliad ac felly hefyd unrhyw ganfyddiad o elyniaeth yn y DU tuag at ymfudwyr. | Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amodau economaidd: gweithlu a sgiliau** (parhad) | Diogelwch swydd mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag allforion/ mewnforion ac amlygiad i newidiadau mewn rhwystrau tariff a di-dariff | Tebygol | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Mae gweithgynhyrchu yn chwarae mwy o ran yn economi Cymru nag mewn rhannau eraill o'r DU. Y brif farchnad ar gyfer gweithgynhyrchwyr o Gymru yw'r UE. Mae unrhyw newidiadau tariff, gostyngiad mewn buddsoddiad busnes a llai o dwf economaidd yn peri risgiau i ddiogelwch swyddi.<br>NAWR: Mae Cymru yn gweld pwysau ar ei sector gweithgynhyrchu oherwydd nifer o ffactorau sy'n debygol o waethygu yn sgil Brexit, yn enwedig wrth adael 'heb gytundeb' lle mae disgwyl i rwystrau tariff a di-dariff fod ar eu mwyaf. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Sgiliau a chyflogadwyedd | Tebygol | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Ansicrwydd ynghylch amnewid cronfeydd yr UE sydd wedi cefnogi sgiliau a chyfleoedd addysgol.<br>NAWR: Mae'n dal yn aneglur pa gyfleoedd cyllido'r DU fydd ar gael ar ôl Brexit i ddisodli cyllid yr UE. | Economi |
| **Amodau economaidd: Cyllid yr UE** | Buddsoddiad cymunedol, economaidd a seilwaith ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddold-ebau | Tebygol | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Ansicrwydd ynghylch amnewid Cronfeydd yr UE sydd wedi darparu buddsoddiad rhanbarthol ac sydd wedi'i anelu at leihau anghydraddoldebau rhanbarthol.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. h.y. manylion pellach am Gronfa Ffyniant a Rennir y DU. | Economi |
| | Polisi/cyllid amaethyddol a rheoli tir | Cadarnhawyd | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Newidiadau mawr yn y fframwaith polisi a thaliadau, gan effeithio ar ffermwyr, tirfeddianwyr a chymunedau gwledig ac arwain at gryn ansicrwydd.<br>NAWR: Mae'r penderfyniad i barhau â'r lefelau taliadau cyfredol nes bod trefniadau newydd wedi'u cytuno yn rhoi sicrwydd tymor byr. Fodd bynnag, mae ansicrwydd yn parhau ynghylch modelau talu yn y dyfodol sy'n effeithio ar gynllunio a diogelwch tymor hir. Bellach mae mecanweithiau unrhyw effaith negyddol bosibl wedi'u cysylltu'n agosach â newidiadau i fasnach, cytundebau masnach yn y dyfodol, tariffau a pherthynas y DU â'r UE yn hytrach na cholli'r Polisi Amaethyddol Cyffredin yn y tymor. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Amodau economaidd: Cyllid yr UE** (parhad) | Polisi/cyllid pysgota a dyfroedd pysgota | Tebygol | Cymedrol | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Gall colli mynediad at gyllid yr UE a arferai gefnogi diwydiant pysgota Cymru, ac ansicrwydd ynghylch masnach yn y dyfodol, tariffau, gwiriadau allforio, oedi ar ffiniau a hawliau pysgota yn nyfroedd y DU amharu ar fusnes ac effeithio ar lesiant, yn enwedig mewn senario dim cytundeb. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Cyllid ymchwil a datblygu ar gyfer technolegau a thriniaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd | Cadarnhawyd | Cymedrol | ↔ | ↓ | CYNT: Llai o fynediad i ffrydiau cyllido Ymchwil a Datblygu'r UE, a cholli cyfleoedd cydweithredu.<br>NAWR: Y tu allan i'r UE byddai'r DU wedi lleihau mynediad i ffrydiau cyllido'r UE. Fodd bynnag, ar hyn o bryd mae awydd o'r tu mewn i'r DU a'r UE i gydweithredu parhaus a chydnabod budd cyd-weithio agos. Gellid ei niweidio wrth adael 'heb gytundeb'. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| **Amodau gwaith** | Gan gynnwys: iechyd a diogelwch, hawliau gweithwyr a chydraddoldeb ac oriau gwaith | Posibl | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Colli deddfwriaeth amddiffynnol allweddol yr UE ar gyfer hawliau gweithwyr. Gallai cytundebau polisi a masnach yn y dyfodol gael effeithiau cadarnhaol neu negyddol.<br>NAWR: Mae diffyg manylion am gytundebau masnach yn y dyfodol a pherthynas â'r UE yn golygu bod y potensial o ran yr effaith ar amodau gwaith yn ansicr. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amserol** | Staffio gofal iechyd | Cadarnhawyd | Sylweddol | | | CYNT: Mae recriwtio, cadw a chydnabod heriau'n gysylltiedig â chymwysterau yn y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) sy'n gysylltiedig â Brexit, yn creu effaith gronnus ar staffio gyda'r gofynion presennol ar y sector.<br>NAWR: Mae staff gofal iechyd yn parhau i fod yn flaenoriaeth. Bydd y rhan fwyaf o gymwysterau staff gofal iechyd yr UE yn cael eu cydnabod gyda chytundeb ymadael neu hebddo, ond mae'n annhebygol y bydd gan Gymru un pwynt i gael mynediad at wybodaeth cymhwyster i ymarfer. Mae ansicrwydd parhaus ynghylch rheolau mewnfudo a hawliau ymfudwyr sy'n byw ac yn gweithio yn y DU yn debygol o effeithio ar recriwtio a chadw yng Nghymru. Mae risg y bydd y DU/ Cymru yn canolbwyntio ar recriwtio gweithwyr mudol y tu allan i'r UE i fynd i'r afael ag unrhyw ddiffyg staffio a rhoi ffocws annigonol ar recriwtio a chadw staff y DU a/neu gadw'r holl staff drwy wella amodau gwaith a chyfleoedd datblygu gyrfa. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| | Mynediad at feddyginiae- thau, dyfeisiau meddygol a threialon clinigol | Tebygol | Sylweddol | | | CYNT: Tarfu ar gadwyni cyflenwi meddygaeth a nwyddau traul, llai o fynediad neu eithrio o dreialon yr UE, newidiadau i reoliadau, ac ansicrwydd ynghylch cyfranogiad tymor hir mewn asiantaethau rheoleiddio a goruchwylio allweddol fel Asiantaeth Meddyginiaethau Ewrop, Llys Cyfiawnder Ewrop.<br>NAWR: Mae tystiolaeth ychwanegol i gefnogi'r aflonyddwch tebygol i gadwyni cyflenwi meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol, yn achos gadael 'heb gytundeb', sydd wedi dod yn fwyfwy tebygol. | Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Diogelu iechyd / diogelwch iechyd | Tebygol | Cymedrol | | | CYNT: Colli deallusrwydd (gwyliadwriaeth a monitro) ac ymateb cydgysylltiedig i risgiau iechyd trawsffiniol.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Mynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon | | | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Briff gwylio: Disgwylir y bydd colli cyfranogiad yn sefydliadau'r UE yn cyfyngu ar y gallu i fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol/cyffuriau anghyfreithlon, yn enwedig mewn achos o adael 'heb gytundeb'. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amserol** (parhad) | Arweinyddiaeth a llywodraethu yn y GIG | Posibl | Cymedrol | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Disgwylir i bob math o Brexit gael effaith negyddol bosibl ar y GIG yn y DU, gan gynnwys llai o oruchwyliaeth ar benderfyniadau llywodraeth y DU a mwy o bwysau ar ymddiriedolaethau iechyd lleol. | |
| | Gofal iechyd dwyochrog (trawsffiniol) | Posibl | Cymedrol |  |  | CYNT: Ansicrwydd ynghylch gofal iechyd dwyochrog mewn senario “dim cytundeb” neu y tu hwnt i unrhyw gyfnod pontio.<br>NAWR: Trafodwyd trefniadau yn ddwyochrog gyda rhai aelodau o’r UE hyd yn oed mewn senario dim cytundeb. Cyhoeddodd Llywodraeth y DU ar 23 Medi y bydd costau gofal iechyd dinasyddion y DU sy’n byw yn yr UE ac y mae eu gofal iechyd yn cael ei ariannu gan Lywodraeth y DU, gan gynnwys pensiynwyr a myfyrwyr, yn cael eu talu am 6 mis os ydym yn gadael ‘heb gytundeb’. Fodd bynnag, mae llawer o drefniadau wedi’u cyfyngu i fis Rhagfyr 2020 ac yn berthnasol i breswylwyr presennol yn unig. Mae diffyg cysondeb o ran lefel y cymorth ac mae dinasyddion yn debygol o brofi mwy o gyfyngiadau a llai o gymorth nag o dan y system bresennol. | |
| | Iechyd meddwl | Tebygol | Isel | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod rhai dinasyddion yn teimlo bod Brexit yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a’u lles. Mae graddfa’r ansicrwydd sy’n wynebu cymunedau ffermio, y mae peth ohono wedi’i gysylltu’n uniongyrchol â Brexit, wedi’i nodi fel pryder cynyddol ac yn effeithio ar les meddyliol y grŵp hwn o’r boblogaeth. Ar lefel poblogaeth, ac wrth adael ‘heb gytundeb’, bydd yn cymryd amser a rhagor o ymchwil i ddeall yr effaith lawn. | Iechyd a Lles |
| | Clefydau prin | Tebygol | Isel |  |  | CYNT: Potensial ar gyfer llai o fynediad neu waharddiad o rwydweithiau clefydau prin Ewropeaidd. Bydd hyn yn cynnwys y posibilrwydd o golli mynediad at wybodaeth a rhannu tystiolaeth ac effaith ar fynediad cyflym at ddiagnosis a thriniaethau newydd.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi’i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amserol** (parhad) | Staff gofal cymdeithasol | Tebygol | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Yng Nghymru, mae nifer dinasyddion yr UE sy'n gweithio ym maes gofal cymdeithasol wedi cynyddu 56% ers 2011 tra bod nifer y gwladolion nad ydynt yn rhan o'r UE wedi lleihau. Mae newidiadau arfaethedig mewnfudo a rhyddid i symud sy'n gysylltiedig â Brexit yn her o ran recriwtio/cadw yn y dyfodol a bydd yn cael effaith gronnus ar gapasiti gweithlu'r sector presennol a heriau demograffig.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. Mae recriwtio a chadw yn broblem barhaus. | Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| | Gwasanaethau cymunedol a thrydydd sector | | | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Briff gwylio: Mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb' yn tynnu sylw at effeithiau posibl ar y trydydd sector gan gynnwys materion yn ymwneud â'r gweithlu a'r posibilrwydd o alw cynyddol gan ddinasyddion yn ystod cyfnod o gythrwfl. Mae Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ymchwil ar yr effeithiau ar y trydydd sector gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru. | Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol; Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| **Grwpiau sy'n gysylltiedig â rhyw a rhywedd** | Menywod (mewn perthynas ag amodau gwaith, hawliau a chyflogaeth) | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Dyfodol ansicr o ran amddiffyn cydraddoldeb yn y gwaith, dod i gysylltiad â diweithdra, cynnydd posibl o ran rôl ofalu anffurfiol.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Lles meddyliol |
| | Cyflogi dynion a chanddynt lefel isel neu ganolig o addysg (os yw telerau masnach â'r UE yn newid i reolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO)) | Posibl | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Mae diwydiannau a fyddai'n agored iawn i newidiadau mewn tariffau masnach gyda'r UE o dan reolau Sefydliad Masnach y Byd yn gyflogwyr pwysig o ran dynion â chyrhaeddiad addysgol isel yng Nghymru ac yn cyflogi tua 21% o ddynion a chanddynt lefel isel o addysg.<br>NAWR: Gweler Diogelwch swydd mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag allforion / mewnforion ac amlygiad i newidiadau mewn rhwystrau tariff a di-dariff. | Rhwystrau i fasnachu; Lles meddyliol |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau Cysylltiedig ag Oedran** | Plant | Posibl | Cymedrol | | | CYNT: Gostyngiad posibl mewn hawliau i blant a rhieni sy'n gweithio, llai o fynediad at systemau diogelu Ewropeaidd, tlodi plant o ganlyniad i unrhyw grebachu yn yr economi, effeithiau ar iechyd meddwl a lles oherwydd ansicrwydd ynghylch dyfodol yr UE.<br>NAWR: Mae pryderon ynghylch effaith tlodi ar blant, aflonyddu ar fywyd teuluol a mynediad at ofal iechyd penodol i blant yn cael eu cefnogi gan dystiolaeth gyhoeddedig ychwanegol. | Economi; Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| | Plant a anwyd i deuluoedd gyda rhiant o Wlad yn yr UE nad yw'n rhan o'r DU | Tebygol | Sylweddol | | | CYNT: Ansicrwydd ynghylch rheolau mewnfudo a statws setlo yn y dyfodol sy'n effeithio ar ddiogelwch teulu, addysg a threfniadau byw.<br>NAWR: Mae ansicrwydd parhaus ynghylch rheolau mewnfudo a'r heriau o gymhwyso'r cynllun statws preswylydd sefydlog i blant yn atgyfnerthu pryderon. | Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| | Oedolion ifanc | Tebygol | Sylweddol | | | CYNT: Llai o fynediad ac ansicrwydd ynghylch unrhyw ffrydiau cyllido a ddaw yn lle cyllid yr UE i gefnogi sgiliau a chyfleoedd addysgol, llai o fynediad at gyflogaeth ac astudiaeth yr UE a'r effaith ar gyfleoedd cyflogaeth oherwydd unrhyw leihad mewn twf economaidd.<br>NAWR: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | Economi; Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Lles meddyliol |
| **Grwpiau cysylltiedig ag incwm** | Pobl sy'n byw ar incwm isel, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn tlodi bwyd a thanwydd | Tebygol | Sylweddol | | | CYNT: Llai o wytnwch i ymdopi ag unrhyw effeithiau economaidd megis prisiau'n codi, cwymp mewn cyflogau mewn termau real, llai o gyflogaeth, a llai o fynediad ac ansicrwydd o ran disodli cyllid rhanbarthol yr UE. Effaith gronnus gyda diwygio lles a thlodi bwyd.<br>NAWR: Mae dogfen rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer Brexit 'heb gytundeb', "Operation Yellowhammer" Llywodraeth y DU, yn tynnu sylw at grwpiau incwm isel fel rhai "yr effeithir arnynt yn anghymesur" gan unrhyw gynnydd ym mhrisiau bwyd neu danwydd. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Lles meddyliol |
| | Pobl sydd mewn perygl o ddiweithdra / sy'n ddi-waith | Tebygol | Sylweddol | | | CYNT: Perygl o golli swyddi oherwydd unrhyw leihad mewn twf economaidd.<br>NAWR: Mae'r data diweddaraf yn awgrymu cynnydd mewn cyflogaeth ond mae effaith bosibl Brexit ei hun ar gyflogaeth yn dal yn aneglur. | Economi; Lles meddyliol |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol** | Grwpiau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig | Tebygol | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Cynnydd mewn troseddau casineb, llai o oddefgarwch, erydu hawliau cydraddoldeb, effaith ar gyflogaeth mewn diwydiannau gwasanaeth yn sgil "Brexit caled".<br>NAWR: Colli ffrydiau cyllido'r UE a strategaeth ar lefel yr UE i gefnogi cymunedau pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig. Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi mesurau i liniaru effeithiau negyddol posibl ond mae'n rhy gynnar i bennu maint y broblem ac effaith yr ymyriadau hyn. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| | Mewnfudwyr | | | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Briff gwylio: Codwyd pryderon gan weithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd yn Lloegr bod rhwystrau o ran mynd i'r afael ag iechyd mewnfudwyr yn effeithiol yn yr amgylchedd gwleidyddol, cymdeithasol a sefydliadol ar ôl refferendwm yr UE. Ymhlith yr heriau mae diffyg gwybodaeth a sgiliau, ymgysylltiad cymunedol annigonol, diffyg amrywiaeth yn y gweithlu, a diffyg mynediad at hyfforddiant i weithwyr proffesiynol. | Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| | Pobl ag ystod o anableddau | | | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Briff gwylio: Codwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o golli hawliau anabledd yn neddfwriaeth yr UE; colli ffrydiau cyllido'r UE; a phrinder staff gofal cymdeithasol. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau daearyddol** | Pobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd â dangosyddion / ardaloedd economaidd ac iechyd gwael yng Nghymru sydd wedi elwa'n sylweddol ar gyllid yr UE | Tebygol | Sylweddol | | | CYNT: Ansicrwydd ynghylch cyllid rhanbarthol yn y dyfodol ar gyfer buddsoddi yn y gymuned, datblygiad economaidd a seilwaith yng Nghymru.<br>NAWR: Gweler Buddsoddiad cymunedol, economaidd a seilwaith ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau. | Economi; Lles meddyliol |
| | Ffermwyr / cymunedau gwledig | Tebygol | Sylweddol | | | CYNT: Colli ffrydiau incwm o'r UE a mwy o ansicrwydd ynghylch ffrydiau cyllid newydd.<br>NAWR: Gweler Polisi / cyllid amaethyddol a rheoli tir. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Lles meddyliol |
| | Trefi porthladdoedd | | | | | CYNT: Briff gwylio: Effaith bosibl ond tystiolaeth annigonol ar hyn o bryd i ddiffinio'r effaith.<br>NAWR: Briff gwylio: Mae cynllun gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Brexit 'heb gytundeb' yn nodi nad oes disgwyl i'r broses o gyflwyno gwiriadau ffiniau / tollau ychwanegol mewn porthladdoedd achosi problemau traffig ym mhorthladdoedd De-orllewin Cymru. Mae cynlluniau wrth gefn ar waith ar gyfer Caergybi. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE |
| | Trefi arfordirol e.e. gweithlu twristiaeth ac ansawdd dŵr ymdrochi | | | | | CYNT: Briff gwylio: Effaith bosibl ond tystiolaeth annigonol ar hyn o bryd i ddiffinio'r effaith.<br>NAWR: Briff gwylio: Dim byd arwyddocaol wedi'i gyhoeddi i awgrymu bod newid o ran y mater hwn. | |
| | Pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle y gall cyflogwyr mawr adael | Posibl | Sylweddol | | | CYNT: Mae dadansoddiad academaidd a thystiolaeth arall gan rai cwmnïau mawr yn awgrymu effeithiau posibl ar fuddsoddiad a gweithrediadau yng Nghymru yn y dyfodol.<br>NAWR: Mae tystiolaeth gyhoeddedig ychwanegol yn cefnogi'r posibilrwydd y gallai cyflogwyr mawr ddod yn llai cystadleuol ar ôl Brexit a dewis gadael Cymru. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Lles meddyliol |

| | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Grwpiau eraill sy'n agored i niwed** | Pobl sydd angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol | Tebygol | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Mae poblogaeth Cymru yn agored iawn i newidiadau yng nghapasiti'r gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, er enghraifft o ganlyniad i fwy o angen am ofal iechyd ar gyfran uwch o drigolion sydd â salwch tymor hir. Mae gan heriau recriwtio a chyflenwi parhaus ac yn y dyfodol o fewn y GIG a'r sector gofal cymdeithasol, ochr yn ochr â'r canlyniadau iechyd a briodolir i unrhyw anawsterau economaidd a diweithdra, y potensial i gynyddu'r pwysau ar wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.<br>NAWR: Gweler Staffio gofal iechyd, Mynediad at feddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a threialon clinigol a staff gofal cymdeithasol. | Economi; Rhwystrau i fasnachu; Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| | Perchnogion / cyflogwyr busnesau bach sy'n mewnforio neu'n allforio nwyddau a gwasanaethau | Tebygol | Cymedrol | ↔ | ↔ | CYNT: Ansicrwydd unrhyw gytundebau masnach a rheoleiddio yn y dyfodol, mwy o waith papur a gwiriadau posibl a materion yn ymwneud â'r gweithlu megis colli staff yr UE.<br>NAWR: Peth tystiolaeth o ddiffyg parodrwydd ar gyfer Brexit ymhlith busnesau bach a chanolig. Effaith negyddol bosibl yn dibynnu ar fargeinion polisi a masnach yn y dyfodol ond ansicrwydd ar hyn o bryd. | Rhwystrau i fasnachu; Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| | Dinasyddion a theuluoedd nad ydynt yn rhan o'r UE sy'n byw yng Nghymru | Tebygol | Sylweddol | ↔ | ↔ | CYNT: Ansicrwydd ynghylch rheolau mewnfudo a statws setlo yn y dyfodol sy'n effeithio ar ymdeimlad o sicrwydd ynghylch trefniadau cyflogaeth a byw.<br>NAWR: Y dystiolaeth ddiweddaraf yn atgyfnerthu pryderon ynghylch effeithiau negyddol ansicrwydd. | Ansicrwydd i wladolion yr UE yn y DU; Lles meddyliol |
| | Dinasyddion a theuluoedd y DU sy'n byw yn yr UE | Posibl | Cymedrol | **NEWYDD** | **NEWYDD** | NAWR: Yn sgil gadael 'heb gytundeb', sy'n gynyddol debygol, ni fydd hawliau dinasyddion y DU sy'n byw ac yn gweithio yn yr UE a'u mynediad at wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill yn cael eu gwarantu yn y tymor hir, er bod Llywodraeth y DU wedi gwarantu cyllid ar gyfer gofal iechyd yn y tymor byr (6 mis). Bydd ailuno aelodau teuluoedd o'r tu allan i'r DU gyda'r teulu sy'n ddinasyddion y DU ac sy'n dychwelyd i'r DU o'r UE yn fwy cymhleth ar ôl Brexit. | Cydweithrediad ac aliniad yr UE; Ansicrwydd i wladolion yr UE; Lles meddyliol |

# 6 Casgliadau a Chamau a Argymhellir

Nod y ddogfen hon yw rhoi gwybodaeth i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau, cyrff cyhoeddus ac arweinwyr sefydliadol sy'n gyfrifol am baratoi ar gyfer Brexit yng Nghymru ac ymateb iddo. Mae'r adolygiad cyflym hwn o dystiolaeth a gyhoeddwyd rhwng mis Ionawr 2019 a mis Medi 2019 yn adeiladu ar *Goblygiadau Brexit i Iechyd y Cyhoedd yng Nghymru: Ymagwedd Asesu Effaith ar Iechyd* i ystyried yr effeithiau posibl ar benderfynyddion iechyd a llesiant a grwpiau y gallai Brexit effeithio arnynt ar ôl iddo ddigwydd. Mae'r effeithiau a nodir yn rhai posibl ac nid yn rhai gwirioneddol, gan nad yw Brexit wedi digwydd eto. Mae angen ystyried y dadansoddiad a'r casgliadau yn y ddogfen hon yng nghyd-destun tystiolaeth sy'n cael ei chyhoeddi bob dydd, ynghyd â deinameg wleidyddol sy'n newid yn gyson.

Mae'r adolygiad hwn wedi cadarnhau bod yr holl effeithiau a grwpiau poblogaeth a nodwyd yn yr Asesiad gwreiddiol yn parhau i fod yn ddilys. Yr hyn sydd wedi newid yn ystod y cyfnod hwn yw bod natur, tebygolrwydd a dwysedd rhai o'r effeithiau posibl a nodwyd wedi newid, naill ai'n gadarnhaol neu'n negyddol, ac mae rhai effeithiau newydd wedi dod i'r amlwg. Adlewyrchir hyn yn yr un modd yn y dadansoddiad o'r grwpiau poblogaeth.

Caiff y newidiadau allweddol i benderfynyddion grwpiau iechyd a phoblogaeth eu crynhoi isod. Dylid darllen y rhain ochr yn ochr â'r sylwebaeth yn Adran 5 yr adroddiad hwn a'r naratif yn adroddiad Prif Ganfyddiadau'r HIA.



## Newidiadau a nodwyd i'r effaith bosibl ar benderfynyddion iechyd a grwpiau o'r boblogaeth:

- **Safonau bwyd** – mae'r tebygolrwydd o effaith negyddol fawr wedi cynyddu o effaith bosibl i effaith debygol.
- **Cyflenwad bwyd** – mae'r tebygolrwydd o effaith negyddol fawr wedi cynyddu o effaith bosibl i effaith debygol.
- **Colli cymhwyso Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn y DU** - mae'r tebygolrwydd o effaith negyddol gymedrol wedi cynyddu o effaith bosibl i effaith debygol.
- **Rheoliadau h.y. ansawdd aer, ansawdd dŵr ymdrochi** - mae'r tebygolrwydd o effaith negyddol fawr wedi cynyddu o effaith bosibl i effaith debygol.
- **Cyllid ymchwil a datblygu ar gyfer technolegau a thriniaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd** – mae effaith negyddol gadarn ar gyllid ymchwil a datblygu wedi lleihau mewn dwysedd o ddwysedd sylweddol i gymedrol.
- **Gofal iechyd dwyochrog (trawsffiniol)** – mae tebygolrwydd effaith negyddol ar ofal iechyd dwyochrog wedi lleihau o effaith debygol i effaith bosibl a'r dwysedd wedi lleihau o ddwysedd sylweddol i gymedrol.

Er bod ymgynghoriadau polisi wedi'u cyhoeddi ar lywodraethu amgylcheddol, rheoli tir yn gynaliadwy ac amaethyddiaeth, nid oes digon o sicrwydd ac nid oes polisi wedi'i fabwysiadu eto i newid tebygolrwydd neu ddwysedd unrhyw un o'r effeithiau cadarnhaol posibl a nodwyd yn flaenorol yn yr HIA ar Brexit.

## Mae penderfynyddion a grwpiau poblogaeth newydd a nodwyd fel rhan o'r adolygiad hwn fel a ganlyn:

### Effeithiau cadarnhaol posibl





- **Pobl sy'n byw ar incwm isel, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn tlodi bwyd a thanwydd** – effaith bosibl yn gysylltiedig â phrisiau tai, lle gallai arafu / dirywiad sy'n gysylltiedig â Brexit ym mhrisiau tai fod o fudd i'r rhai ag incwm isel/canolig. Fodd bynnag, gall ei gwneud yn anoddach gwerthu neu symud o dai o ansawdd gwael neu leihau'r gallu i roi cymhorthdal i adeiladu cartrefi fforddiadwy. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth ddigonol i ddiffinio tebygolrwydd a dwysedd yr effaith.

- **Perchnogion/cyflogwyr busnesau bach sy'n mewnforio neu'n allforio nwyddau a gwasanaethau** – mwy o gyfleoedd posibl i allforio oherwydd gwerth llai'r bunt Brydeinig (GBP) ond yn dibynnu ar bolisi a chytundebau masnach yn y dyfodol. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth ddigonol i ddiffinio tebygolrwydd a dwysedd yr effaith.

### Effeithiau negyddol posibl

- **Diogelwch y cyhoedd a gorfodi'r gyfraith** – mae tystiolaeth yn cefnogi'r risg bosibl o anufudd-dod sifil mewn sefyllfa o ddim cytundeb, yn gysylltiedig â thensiwn yn sgil Brexit neu brinder bwyd/tanwydd, a llai o bwerau gan yr heddlu oherwydd y diffyg gallu i ddefnyddio gwarant arestio'r UE a chydweithrediad trawsffiniol. Tebygolrwydd posibl a dwysedd cymedrol.

- **Rheoli gwastraff** – wrth adael 'heb gytundeb', bydd tarfu posibl ar allforio gwastraff i'r UE gyda'r potensial i gynyddu tirlenwi neu losgi. Tebygolrwydd posibl a dwysedd isel.



- **Effaith economaidd oherwydd newidiadau mewnfudo** – gall newidiadau posibl i batrymau mewnfudo effeithio ar yr economi yn gyffredinol neu mewn cymunedau lleol penodol. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth ddigonol i ddiffinio tebygolrwydd a dwysedd yr effaith.

- **Mae'r potensial i ddenu gweithwyr medrus i sectorau allweddol yng Nghymru o'r DU a gwledydd y tu allan i'r UE** – mae newidiadau i ryddid symud a hawliau ymfudwyr sy'n byw yn y DU, yn enwedig mewn yn sgil ymadael 'heb gytundeb', yn dal yn ansicr, a gallai weithredu fel ataliad ac felly hefyd unrhyw ganfyddiad o elyniaeth yn y DU tuag at ymfudwyr. Tebygolrwydd posibl a dwysedd cymedrol.

- **Polisi/cyllid pysgota a dyfroedd pysgota** – gallai colli mynediad at gyllid yr UE a arferai gefnogi diwydiant pysgota Cymru, ac ansicrwydd ynghylch masnach yn y dyfodol, tariffau, gwiriadau allforio, oedi wrth y ffiniau a hawliau pysgota yn nyfroedd y DU amharu ar fusnes ac effeithio ar lesiant, yn enwedig os bydd y DU yn ymadael 'heb gytundeb'. Tebygolrwydd tebygol a dwysedd cymedrol.

- **Mynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon** – roedd disgwyl i lawer o gyfranogiad yn sefydliadau'r UE gyfyngu ar y gallu i fynd i'r afael â throseddau cyfundrefnol/cyffuriau anghyfreithlon, yn enwedig os bydd y DU yn ymadael 'heb gytundeb'. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth ddigonol i ddiffinio'r tebygolrwydd a dwysedd yr effaith.

- **Arweinyddiaeth a llywodraethu'r GIG** – tystiolaeth y disgwylir i bob math o Brexit gael effaith negyddol bosibl ar GIG y DU, gan gynnwys llai o oruchwyliaeth lai ar benderfyniadau llywodraeth y DU a mwy o bwysau ar ymddiriedolaethau iechyd lleol. Tebygolrwydd posibl a dwysedd cymedrol.

- **Iechyd meddwl** – mae tystiolaeth ymchwil yn awgrymu bod rhai dinasyddion yn teimlo bod Brexit yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u llesiant ond bydd yn cymryd amser ac ymchwil bellach i ddeall yr effaith ar lefel y boblogaeth. Tebygolrwydd tebygol a dwysedd isel.

- **Gwasanaethau cymunedol a thrydydd sector** – effeithiau negyddol posibl oherwydd heriau'n ymwneud â'r gweithlu a chynnydd yn y galw, yn enwedig os bydd y DU yn ymadael 'heb gytundeb'. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth ddigonol i ddiffinio'r tebygolrwydd a dwysedd yr effaith.







- **Mewnfudwyr** – codwyd pryderon gan weithwyr proffesiynol iechyd y cyhoedd yn Lloegr bod rhwystrau o ran mynd i'r afael ag iechyd mudol yn effeithiol yn amgylchedd gwleidyddol, cymdeithasol a sefydliadol ar ôl refferendwm yr UE. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth ddigonol i ddiffinio'r tebygolrwydd a dwysedd yr effaith.

- **Pobl ag ystod o anableddau** – codwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd o ddychwelyd hawliau anabledd yn neddfwriaeth yr UE; colli ffrydiau cyllido'r UE; a phrinder staff gofal cymdeithasol. Ar hyn o bryd nid oes tystiolaeth ddigonol i ddiffinio'r tebygolrwydd a dwysedd yr effaith.

- **Dinasyddion a theuluoedd y DU sy'n byw yn yr UE** – yn sgil gadael 'heb gytundeb', ni fydd gwarant i ddinasyddion y DU sy'n byw ac yn gweithio yn yr UE o ran eu hawliau na'u mynediad at wasanaethau iechyd a gwasanaethau eraill yn yr hirdymor. Bydd ailuno aelodau o deuluoedd â theulu o'r tu allan i'r DU gyda'r teulu sy'n ddinasyddion y DU sy'n dychwelyd i'r DU o'r UE yn fwy cymhleth ar ôl Brexit. Tebygolrwydd posibl a dwysedd cymedrol.

Yn ogystal, mae'r canfyddiadau yn awgrymu, er y bydd Brexit yn effeithio ar y boblogaeth yn gyffredinol, gallai fod grwpiau o'r boblogaeth y bydd Brexit yn cael effaith andwyol arnynt mewn ffordd gronnus amlweddog, er enghraifft, pobl oedrannus sydd â chyflyrau cronig neu anableddau, sydd angen cael mynediad at feddyginiaeth a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol, ac a allai hefyd fod ar incwm isel. Bydd poblogaethau o'r fath yn fwy agored i unrhyw effeithiau negyddol Brexit megis pwysau yn sgil chwyddiant ar fwyd a thanwydd, cyflenwi meddyginiaethau a dyfeisiau meddygol a materion staffio yn y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio.

**Yn yr HIA a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2019, awgrymwyd naw cam gweithredu a argymhellir ar gyfer cyrff, sefydliadau ac asiantaethau cyhoeddus Cymru. Mae'r rhain yn dal i fod yn berthnasol ac fe'u rhestrir isod:**

1. Dylai gwneuthurwyr polisïau a gwasanaethau cyhoeddus ystyried yr ystod o effeithiau posibl Brexit a nodir a'r meysydd ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, a sicrhau bod camau cydlynus wedi eu sefydlu i fynd i'r afael â phob un. Dylai'r adroddiad hefyd gael ei ystyried gan strwythurau amlasiantaeth sydd wedi cael eu sefydlu i baratoi ar gyfer Brexit ac ymateb iddo, er mwyn darparu cydlyniant ar draws gweithgareddau a sicrhau bod y rhyngddibyniaeth rhyngddynt wedi cael ei nodi a'i drin.

2. Mae nifer o grwpiau poblogaeth, er enghraifft Dinasyddion yr UE nad ydynt o'r DU, cymunedau difreintiedig a gwledig, wedi'u nodi fel rhai sy'n arbennig o agored i niwed o broses Brexit. Dylid blaenoriaethu polisïau a gweithredoedd er mwyn mynd i'r afael ag effeithiau ar grwpiau poblogaeth o'r fath lle gallai Brexit fod fwyaf niweidiol. Dylai pob gweithred (nid dim ond y rheiny ym maes iechyd) ddangos yn amlwg sut y maent wedi ystyried diogelu a gwella iechyd a llesiant holl drigolion Cymru, ond yn arbennig y rhai mwyaf agored i niwed.

3. Mae angen i arweinyddiaeth ar draws holl faterion Brexit barhau i ddarparu cyfeiriad cyffredinol i ymateb Cymru, a sicrwydd beirniadol bod cynlluniau'n gweithio'n briodol ar draws asiantaethau yn ogystal ag ar draws graddfeydd amser (tymor byr, canolig a hirdymor).

4. Dylai cyrff cyhoeddus sefydlu fframwaith sefydliadol ar y cyd, fel 'Fframwaith Risg ac Effaith' i helpu i ddatblygu, cydlynu, gweithredu a monitro eu hymateb i Brexit. Dylai'r penderfynyddion iechyd cymdeithasol, er enghraifft addysg a chyflogaeth, a meysydd o berygl uniongyrchol i iechyd (y cynnwys iechyd meddwl) a gofal iechyd, er enghraifft staffio fod yn rhan o'r fframwaith hwn. Dylai'r fframwaith gael ei lywio gan systemau gwybodaeth sydd yn monitro effeithiau Brexit yng Nghymru yn gyffredinol ond yn arbennig ar y grwpiau y rhagwelir y cânt eu heffeithio fwyaf.

5. Dylid cyfuno data a gwybodaeth ar draws asiantaethau yn ymwneud ag effeithiau posibl Brexit a'u defnyddio mewn dangosfwrdd sy'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd i lywio polisi ar y cyd a gwneud a phenderfyniadau strategol. Dylai hyn gynnwys data ôl-weithredol o adeg cyn y refferendwm, er mwyn sefydlu llinell sylfaen cyn i ansicrwydd Brexit ddechrau ac archwilio effeithiau'n ymwneud â Brexit a allai eisoes fod wedi digwydd, er enghraifft ar iechyd meddwl, recriwtio, buddsoddi yng Nghymru.

6. Dylai sefydliadau a phartneriaethau ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i fframio eu hymateb i Brexit. Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod yr effeithiau ar ac anghenion plant a phobl ifanc fydd yn cael eu heffeithio fwyaf yn y dyfodol (yn cynnwys cenedlaethau'r dyfodol) yn cael eu hystyried. Mae angen i'r gweithredu ganolbwyntio ar atal effeithiau negyddol a diogelu llesiant, gan gydnabod cysylltiadau â phenderfynyddion cymdeithasol iechyd.

7. Mae angen mwy o ymchwil ar effaith Brexit ar iechyd a lles meddwl, cadernid a chydlyniant cymunedol, plant ac oedolion ifanc, ffermwyr a chymunedau gwledig, ardaloedd porthladd a grwpiau du a lleiafrifoedd ethnig. Dylai hyn ategu data yn y dangosfwrdd a gellid ei ddefnyddio ar y cyd i fodelu effeithiau yn y dyfodol ar gyfer Cymru.

8. Mae diffyg profiad a sgiliau yng ngweithlu iechyd y cyhoedd ar hyn o bryd i ddylanwadu ar a chyfrannu at gytundebau masnach. Dylai'r system iechyd y cyhoedd ystyried sut i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gallu i sicrhau bod iechyd a llesiant yn cael ei ystyried yn flaenllaw ym mhrosesau o'r fath. Gall fod gan wasanaethau cyhoeddus eraill ddiffygion tebyg y mae angen mynd i'r afael â nhw.

9. Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru, mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid allweddol eraill, fonitro a gwerthuso'r defnydd o'r HIA hwn. Dylai Iechyd Cyhoeddus Cymru (gyda mewnbwn gan y Grŵp Cynghori Strategol) ddiweddaru a rhannu canfyddiadau allweddol yr HIA hwn fel mater o drefn, er mwyn llywio ymateb y rhai sy'n llunio polisïau a phenderfyniadau, gwasanaethau cyhoeddus a grwpiau amlasiantaeth yng Nghymru.

I grynhoi, mae nifer y penderfynyddion iechyd y mae Brexit wedi effeithio arnynt wedi cynyddu i gynnwys, er enghraifft, iechyd meddwl, diogelwch y cyhoedd a gorfodi'r gyfraith a maes arweinyddiaeth a llywodraethu'r GIG. Bydd angen gweithredu yn y meysydd ychwanegol hyn, gan gynnwys ymchwil bellach i ddeall effaith Brexit yn llawnach wrth iddo ddigwydd a sut y gellir lliniaru unrhyw effeithiau ar gyfer y dyfodol. Yn yr un modd, mae tystiolaeth o effeithiau ar grwpiau poblogaeth penodol yr effeithir arnynt yn parhau i ddod i'r amlwg ac mae'r rhain yn cynnwys, er enghraifft, pobl ag anabledd a dinasyddion y DU sy'n byw yn yr UE. Dylid blaenoriaethu rhoi sylw parhaus i anghenion grwpiau sy'n agored i niwed a nodwyd (yn arbennig y rhai sy'n debygol o ddioddef effeithiau cronnus), gan gynnwys drwy ymgysylltu gweithredol ac ymchwil bellach i lywio unrhyw gamau lliniaru posibl mewn byd cyn ac ar ôl Brexit.

# 7 Cyfeiriadau

| Penderfynyddion | Effeithiau Uniongyrchol | Cyfeirnod |
|---|---|---|
| **Mynediad at fwyd iach, diogel a fforddiadwy** | System diogelwch bwyd | • Chatham House. (Ionawr 2019). Food Politics and Policies in Post-Brexit Britain.<br>• Fassam, L. G. (Ionawr 2019). Social Value effect of Food supply chains and Brexit.<br>• Comptroller and Auditor General. (Mehefin 2019). Ensuring food safety and standards. |
| | Rheoliadau diogelwch bwyd | • Llywodraeth Cymru. (Mawrth 2019). Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad 'Diweddaru cyfraith sy'n ymdrin â bwyd yng Nghymru wrth baratoi ar gyfer Brexit'. |
| | Safonau bwyd | • Faculty of Public Health. (Ebrill 2019). Negotiating a 'healthy' trade policy for the UK.<br>• Congressional Research Service (Ebrill 2019). Brexit and Outlook for U.S.-UK Trade Agreement.<br>• Office of the United States Trade Representative. (Chwefror 2019). United States-United Kingdom Negotiations: Summary of Specific Negotiating Objectives.<br>• United States Trade Representative. (2019). National Trade Estimate Report on Foreign Trade Barriers.<br>• Nogués, J.J. Journal of World Trade. (Mehefin 2019). Brexit Trade Impacts' and Mercosur's Negotiations with Europe. |
| | Cynhyrchu bwyd yn gynaliadwy | • Llywodraeth Cymru. (Gorffennaf 2019). Ymgynghoriad: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir. |
| | Cyflenwad bwyd | • Institute of Economic Affairs. (Chwefror 2019). 'No-deal' Fear-checker: Supermarkets will run out of food and people's health will be at risk.<br>• Lang, T. The Lancet. (Awst 2019).'No-deal' food planning in UK Brexit.<br>• The Times. (Awst 2019). Operation Chaos: Whitehall's secret 'no-deal' Brexit preparations leaked.<br>• Llywodraeth y DU. (Awst 2019) Operation Yellowhammer Rhagdybiaethau cynllunio "canlyniadau gwaethaf" |
| | Cost bwyd | • Barons, M.J. (Gorffennaf 2019). Anticipated impacts of Brexit scenarios on UK food prices using structured expert judgement: implications for policies on poverty and health.<br>• Lang, T. The Lancet. (Awst 2019). 'No-deal' food planning in UK Brexit. |
| **Alcohol** | Patrymau yfed alcohol | |
| | Rheoliadau alcohol | • The Guardian. (Medi 2019). Health secretary voices concern at duty-free's return under 'no-deal' Brexit.<br>• The Guardian. (Medi 2019). Cheap booze and fags: the last gasp of government health policy.<br>• Trysorlys, E.M. (Medi 2019). Chancellor announces return of duty-free. |
| **Tybaco** | Defnyddio tybaco | |
| | Rheoliadau tybaco | • Politico. (Mehefin 2019). Brexit Britain's vaping paradise: Tobacco laws set to be first break with EU rules.<br>• The Guardian. (Medi 2019). Health secretary voices concern at duty-free's return under 'no-deal' Brexit.<br>• The Guardian. (Medi 2019). Cheap booze and fags: the last gasp of government health policy.<br>• Trysorlys, E.M. (Medi 2019). Chancellor announces return of duty-free. |
| **Hawliau dynol** | Colli cymhwysiad Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn y DU | • Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig. (Tachwedd 2018). Statement on Visit to the United Kingdom, by Professor Philip Alston, United Nations Special Rapporteur on extreme poverty and human rights.<br>• Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (Mai 2019). The future of funding for equality and human rights.<br>• Pwyllgor Dethol Tŷ'r Arglwyddi. (Mehefin 2019). Human rights protection at risk after Brexit warns Committee.<br>• Smith, R. The International Journal of Human Rights. (Gorffennaf 2019) Brexiting human rights diplomacy at the United Nations Human Rights Council: opportunity or cause for concern? |
| | Diogelwch y cyhoedd a gorfodi'r gyfraith | • The Guardian. (Chwefror 2019). 'No-deal' Brexit would make Britain less safe, says police chief.<br>• The Guardian. (Ebrill 2019). Police amass 10,000 officers in preparation for 'no-deal' unrest.<br>• van Schalkwyk, M.C.I. The British Medical Journal. (Awst 2019). Assessing the health effects of a 'no-deal' Brexit.<br>• Llywodraeth y DU (Awst 2019) Operation Yellowhammer Rhagdybiaethau cynllunio "canlyniadau gwaethaf" |


| | | |
|---|---|---|
| **Rheoliadau amgylcheddol** | **Rheoliadau e.e. ansawdd aer, ansawdd dŵr ymdrochi** | • Pwyllgor yr Amgylchedd, Bwydd a Materion Gwledig. (Ebrill 2019). Pre-legislative scrutiny of the Draft Environment (Principles and Governance) Bill.<br>• Greener UK. (Mehefin 2019). The environmental implications of different EU-UK relationship options.<br>• Newyddion y BBC. (Gorffennaf 2019). Wales farm subsidy replacement plan law delayed until after Senedd elections.<br>• Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (Gorffennaf 2019). Llythyr at Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig.<br>• Llywodraeth Cymru. (Gorffennaf 2019). Datganiad Ysgrifenedig gan Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig: Egwyddorion Amgylcheddol a Llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r UE.<br>• Llywodraeth Cymru. (Medi 2019). Egwyddorion a threfniadau llywodraethu amgylcheddol yng Nghymru ar ôl ymadael â'r UE. |
| | **Rheoli gwastraff** | • The Guardian. (Chwefror 2019). Officials warn of putrefying piles of rubbish after 'no-deal' Brexit.<br>• Adran yr Amgylchedd, Bwydd a Materion Gwledig, Asiantaeth yr Amgylchedd. (Mawrth 2019). 'No-deal' EU exit: Government issues reminder to waste industry.<br>• Adran yr Amgylchedd, Bwydd a Materion Gwledig (Mehefin 2019). Guidance: Importing and exporting waste if there's no Brexit deal.<br>• Newyddion y BBC News. (Awst 2019). 'No-deal' Brexit 'will see more waste going to landfill'.<br>• Llywodraeth Cymru (Medi 2019) Cynllun gweithredu ymadael 'heb gytundeb' |
| **Amodau economaidd: gweithlu a sgiliau** | **Heriau'n ymwneud â'r gweithlu mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag iechyd a llesiant** | • Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. (Chwefror 2019). Migration in Wales: The impact of post-Brexit policy changes.<br>• Hurley, R. The British Medical Journal. (Chwefror 2019). Brexit could spell trouble for unsung heroes of UK biomedical research.<br>• Llywodraeth Cymru. (Mawrth 2019). Effaith Brexit ar weithlu gofal cymdeithasol a gofal plant Cymru.<br>• Newyddion y BBC. (Mawrth 2019). 20,000 more care workers needed in Wales by 2030.<br>• Migration Advisory Committee. (Mai 2019). Migration Advisory Committee recommends adding to shortage occupation list. |
| | **Effaith economaidd oherwydd newidiadau mewnfudo** | • Bevan Foundation. (Ionawr 2019). Life after free movement: making future immigration policy work for Wales.<br>• Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. (Chwefror 2019). Migration in Wales: The impact of post-Brexit policy changes.<br>• Llywodraeth yr Alban. (Chwefror 2019). UK immigration policy after leaving the EU: impacts on Scotland's economy, population and society.<br>• Runge, J. Economic and Social Research Council and National Institute of Economic and Social Research. (Awst 2019). Briefing: Overview of Evidence On Economic Impacts of EU Immigration. |
| | **Potensial i ddenu gweithwyr medrus i sectorau allweddol i Gymru o fewn y DU a chenhedloedd y tu allan i'r UE** | • The Royal Society, The British Academy, Royal Academy of Engineering, The Academy of Medical Sciences. (Mai 2019). £30,000 salary threshold would be detrimental for research and innovation: We need an immigration system that welcomes skilled people from overseas.<br>• The UK in a Changing Europe. (Mehefin 2019). The Brexit Scorecard.<br>• Newyddion y BBC. (Gorffennaf 2019). Brexit: Bosses seek cut to immigrant salary threshold.<br>• The Guardian. (Awst 2019). How will Britain treat EU citizens after Brexit? They need to know – and so does business.<br>• Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (Awst 2019). Migration Statistics Quarterly Report: August 2019.<br>• The Guardian. (Medi 2019). Home Office planning to end family reunion for children after Brexit. |
| | **Diogelwch swydd mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag allforion/mewnforion ac amlygiad i newidiadau mewn rhwystrau tariff a di-dariff** | • The Independent. (Chwefror 2019). Which companies are leaving UK, downsizing or cutting jobs ahead of Brexit?<br>• The Guardian. (Chwefror 2019). One in three UK firms plan for Brexit relocation, IoD says.<br>• Saïd Business School, Prifysgol Rhydychen. (Ebrill 2019). Death by a thousand cuts: The strategic outlook for the UK automotive industry beyond Brexit.<br>• The Guardian. (Mai 2019). Brexit: UK car production plunges amid 'untold damage' of EU leave date chaos.<br>• Newyddion y BBC. (Mehefin 2019). Ford set to close Bridgend engine plant in 2020.<br>• The UK in a Changing Europe. (Mehefin 2019). The Brexit Scorecard.<br>• Newyddion y BBC. (Awst 2019). Brexit: 'Low take-up of 'no-deal' fund concerning'.<br>• The UK in a Changing Europe. (Medi 2019). 'No-deal' Brexit: Issues, impacts, implications. |
| | **Sgiliau a chyflogadwyedd** | Dim cyhoeddiadau newydd o bwys |
| | **Argaeledd swyddi / swyddi gwag** | Dim cyhoeddiadau newydd o bwys |
| | **Buddsoddiad cymunedol, economaidd a seilwaith ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau** | Dim cyhoeddiadau newydd o bwys |

| | | |
|---|---|---|
| **Amodau economaidd: gweithlu a sgiliau** (parhad) | **Polisi / cyllid amaethyddol a rheoli tir** | • Chatham House. (Ionawr 2019). Food Politics and Policies in Post-Brexit Britain.<br>• Llywodraeth Cymru. (Ionawr 2019). Crynodeb o Weithdai Cynllunio ar Senarios Ymadael â'r UE.<br>• The Guardian. (Chwefror 2019). Brexit could be good for UK environment, says top government adviser.<br>• Hubbard, C. et al. Newcastle University. (Mawrth 2019). Brexit: How might UK Agriculture Thrive or Survive?<br>• Agriculture and Horticulture Development Board. (Ebrill 2019). Understanding Brexit - an impact assessment.<br>• Llywodraeth Cymru. (Mehefin 2019). Cyflwyniad ar Brosiect Peryglon daearyddol a dadansoddiad diweddaraf ar gyfer y sector Pysgodfeydd.<br>• Roederer-Rynning, C. Politics and Governance. (Gorffennaf 2019). What Common Agricultural Policy After Brexit?<br>• The Independent. (Gorffennaf 2019). 'No-deal' Brexit could cause mass slaughter of UK lambs as end of European trade spells "disaster" for farmers.<br>• Newyddion y BBC. (Gorffennaf 2019). Wales farm subsidy replacement plan law delayed until after Senedd elections.<br>• Llywodraeth Cymru. (Gorffennaf 2019). Brexit 'heb gytundeb' yn bygwth dyfodol ffermio yng Nghymru: rhaid i'r Prif Weinidog newydd osgoi hynny – Llywodraeth Cymru.<br>• Llywodraeth Cymru. (Gorffennaf 2019). Ymgynghoriad: Ffermio Cynaliadwy a'n Tir.<br>• Mike Hedges AM, Cadeirydd y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig (Gorffennaf 2019). Letter to Lesley Griffiths Minister for Environment, Energy and Rural Affairs.<br>• Gravey, V. EuroChoices. (Awst 2019). Finally Free to Green Agriculture Policy? UK post-Brexit Policy Developments in the Shadow of the CAP and Devolution.<br>• Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. (Awst 2019). Farm payments in a 'no-deal' Brexit.<br>• Davies, A.R. et al (2019). Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd Fframwaith gweithredu i gefnogi iechyd meddwl a lles ffermwyr a'u teuluoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl |
| | **Polisi / cyllid pysgota a dyfroedd pysgota** | • Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. (Chwefror 2019). The Royal Navy, Brexit and UK fisheries.<br>• Cynulliad Cenedlaethol Cymru. (Chwefror 2019) Bil Pysgodfeydd y DU yn gyfle coll i'r diwydiant pysgota yng Nghymru.<br>• Yr Adran Bwyd, yr Amgylchedd a Materion Gwledig. (Mawrth 2019). Fisheries White Paper responses.<br>• Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. (Medi 2019). Fisheries and Brexit.<br>• The Times. (Awst 2019). French fishermen threaten to blockade UK exports after 'no-deal' Brexit.<br>• Llywodraeth Cymru. (2019). Paratoi Cymru: Pysgodfeydd a Masnach.<br>• Llywodraeth Cymru. (2019). Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop. |
| | **Cyllid ymchwil a datblygu ar gyfer technolegau a thriniaethau sy'n gysylltiedig ag iechyd** | • Senedd Ewrop. (Ionawr 2019). Brexit and Horizon Europe.<br>• House of Lords EU Home Affairs Sub-Committee. (Chwefror 2019). Uncertainty over future UK participation in Erasmus and Horizon programmes.<br>• Llywodraeth Cymru. (Ebrill 2019). Horizon 2020 In Wales Annual Report 2018.<br>• Vandenbussche, H. University of Leuven, Belgium. (Mehefin 2019). Sector-Level Analysis of the Impact of Brexit on the EU-28. |
| **Amodau gwaith** | **Gan gynnwys: iechyd a diogelwch, hawliau gweithwyr a chydraddoldeb, oriau gwaith** | • Llywodraeth y DU. (Mawrth 2019). Deddfwriaeth ddrafft: Protecting and enhancing worker rights after the UK withdrawal from the European Union.<br>• The Guardian. (Mawrth 2019). Unions attack May's Brexit pledge on workers' rights.<br>• Ridgway, M. (Awst 2019). Employee Relations: The International Journal. Brexit: human resourcing implications. |
| **Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amserol** | **Staffio gofal iechyd** | • Llywodraeth y DU. (Ebrill 2019). EU workers' qualifications will be recognised after EU Exit.<br>• Jones-Berry, S. Nursing Standard. (Mai 2019). EU nurse exodus blamed on Brexit uncertainty.<br>• Gillin, N., Smith, D. Nursing Inquiry. (Awst 2019). Overseas recruitment activities of NHS Trusts 2015–2018: Findings from FOI requests to 19 Acute NHS Trusts in England.<br>• Spiliopoulos, G, Timmons, S. University of Nottingham Asia Research Institute. (Awst 2019). How can the NHS recruit and retain migrant nurses after Brexit?<br>• van Schalkwyk, MCI. The British Medical Journal. (Awst 2019). Assessing the health effects of a 'no-deal' Brexit. |
| | **Mynediad at feddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a threialon clinigol** | • Medicines and Healthcare products Regulatory Agency. (Chwefror 2019). Further guidance note on the regulation of medicines, medical devices and clinical trials in a 'no-deal' Brexit.<br>• The International Trade Committee. (Mehefin 2019). Committee considers potential impact of future UK-US Free Trade Agreement on NHS services.<br>• O'Dowd, A. The British Medical Journal. (Mehefin 2019). Will the NHS be on Trump's trade table?<br>• The Independent. (Mehefin 2019). Brexit: Leaked cabinet note admits UK not ready for 'no-deal' exit on October 31, blowing hole in Boris Johnson leadership pledge.<br>• Rimmer, A. The British Medical Journal. (Awst 2019). 'No-deal' Brexit may worsen drug shortages, pharmacists warn.<br>• The Times. (Awst 2019). Operation Chaos: Whitehall's secret 'no-deal' Brexit preparations leaked.<br>• The Times. (Medi 2019). Operation Yellowhammer: leaked files reveal medicines that will run out first |

| | | |
|---|---|---|
| **Mynediad at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol amserol** (parhad) | **Mynediad at feddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a threialon clinigol** (parhad) | • Llywodraeth y DU. (Awst 2019) Operation Yellowhammer Rhagdybiaethau cynllunio “canlyniadau gwaethaf”<br>• European Commission and European Medicines Agency. (2019). Questions and Answers related to the United Kingdom’s withdrawal from the European Union with regard to the medicinal products for human and veterinary use within the framework of the Centralised Procedure. |
| | **Diogelu iechyd / diogelwch iechyd** | Dim cyhoeddiadau newydd o bwys |
| | **Mynd i'r afael â chyffuriau anghyfreithlon** | • A Roman-Urrestarazu et al. Health Policy. (Mehefin 2019). Brexit threatens the UK’s ability to tackle illicit drugs and organised crime: What needs to happen now?<br>• Llywodraeth y DU. (Awst 2019) Operation Yellowhammer Rhagdybiaethau cynllunio “canlyniadau gwaethaf” |
| | **Arweinyddiaeth a llywodraethu GIG** | • Fahy, N. et al. The Lancet. (Chwefror 2019). How will Brexit affect health services in the UK? An updated evaluation.<br>• The International Trade Committee. (Mehefin 2019). Committee considers potential impact of future UK-US Free Trade Agreement on NHS services.<br>• O’Dowd, A. The British Medical Journal. (Mehefin 2019). Will the NHS be on Trump’s trade table?<br>• The King’s Fund, the Health Foundation and Nuffield Trust. (Medi 2019). The impact of a ‘no-deal’ Brexit on health and care: an open letter to MPs. |
| | **Gofal iechyd dwyochrog (trawsffiniol)** | • Llywodraeth y DU. (Mawrth 2019). Deddfwriaeth Newydd: Healthcare (European Economic Area and Switzerland Arrangements) Act 2019.<br>• Llywodraeth y DU. (Mawrth 2019). UK nationals living in the EU, EFTA and Switzerland: Healthcare.<br>• Llywodraeth y DU. (Medi 2019). Government takes steps to protect healthcare access for UK nationals living in the EU after 31 October<br>• Llywodraeth y DU. (Awst 2019). Operation Yellowhammer Rhagdybiaethau cynllunio “canlyniadau gwaethaf” |
| | **Iechyd meddwl** | • Vandoros, S. et al. Journal of Epidemiology and Community Health. (Ionawr 2019). The EU referendum and mental health in the short term: a natural experiment using antidepressant prescriptions in England.<br>• Y Sefydliad Iechyd Meddwl. (Mawrth 2019). Top tips to look after your mental health at times of political uncertainty and change.<br>• Britain Thinks. (Ebrill 2019). The Brexit Diaries: Current Public Opinion on Brexit.<br>• The Guardian. (Ebrill 2019). ‘All I hear is anger and frustration’: how Brexit is affecting our mental health.<br>• British Association for Counselling and Psychotherapy. (Ebrill 2019). One third of adults say Brexit has affected their mental health, BACP research finds.<br>• Davies, A.R. et al (2019). Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd Fframwaith gweithredu i gefnogi iechyd meddwl a lles ffermwyr a’u teuluoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a’r Sefydliad Iechyd Meddwl |
| | **Clefydau Anghyffredin** | Dim cyhoeddiadau newydd o bwys |
| | **Staff gofal cymdeithasol** | • Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru. (Chwefror 2019). Migration in Wales: The impact of post-Brexit policy changes.<br>• Llywodraeth Cymru. (Mawrth 2019). Effaith Brexit ar weithlu gofal cymdeithasol a gofal plant Cymru.<br>• Newyddion y BBC. (Mawrth 2019). 20,000 more care workers needed in Wales by 2030.<br>• Local Government Association. (Mawrth 2019). The effect of leaving the European Union on the UK’s health and social care sector.<br>• Golightley, M. et al. The British Journal of Social Work. (Mawrth 2019). Editorial: Social Work in the Eye of the Storm: Politics and Prejudice. |
| | **Gwasanaethau cymunedol a thrydydd sector** | • Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol. (Mai 2019). The future of funding for equality and human rights.<br>• Llywodraeth Cymru (Medi 2019) Cynllun gweithredu ymadael ‘heb gytundeb’ |
| **Grwpiau sy’n gysylltiedig â rhyw a rhywedd** | **Menywod (mewn perthynas ag amodau gwaith, hawliau a chyflogaeth)** | Dim cyhoeddiadau newydd o bwys |
| | **Cyflogi dynion â lefel addysg isel a chanolig (os yw telerau masnach â’r UE yn newid i reolau Sefydliad Masnach y Byd (WTO))** | • Gweler cyfeiriadau o dan ‘Diogelwch swydd mewn sectorau sy’n gysylltiedig ag allforion / mewnforion ac amlygiad i newidiadau mewn rhwystrau tariff a di-dariff’ |

| | | |
|---|---|---|
| **Grwpiau cysylltiedig ag oedran** (parhad) | **Plant** | • Iacobucci, G. The British Medical Journal. (Ionawr 2019). Poverty, public health cuts, and Brexit risk halting progress on child health, college warns.<br>• Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig. (Tachwedd 2018). Statement on Visit to the United Kingdom, by Professor Philip Alston, United Nations Special Rapporteur on extreme poverty and human rights. |
| | **Plant a anwyd i deuluoedd gyda rhiant o Wlad yr UE nid y DU** | • The Guardian. (Mawrth 2019). Thousands of children 'could become undocumented' after Brexit.<br>• Reimers, K. (Ebrill 2019). Brexit and its psychological impact: A qualitative study on the well-being of EU-citizens based in the UK. |
| | **Oedolion ifanc** | • Senedd Ieuenctid Cymru. (Chwefror 2019). Iechyd meddwl ar frig rhestr o faterion pwysicaf pobl ifanc Cymru. |
| **Grwpiau cysylltiedig ag incwm** | **Pobl sy'n byw ar incwm isel, gan gynnwys pobl sy'n byw mewn tlodi bwyd a thanwydd** | • Swyddfa Uchel Gomisiynydd Hawliau Dynol y Cenhedloedd Unedig. (Tachwedd 2018). Statement on Visit to the United Kingdom, by Professor Philip Alston, United Nations Special Rapporteur on extreme poverty and human rights.<br>• Llywodraeth y DU. (Awst 2019) Operation Yellowhammer Rhagdybiaethau cynllunio "canlyniadau gwaethaf"<br>• Gweler y cyfeiriadua o dan 'Cost bwyd', 'Diogelwch swydd mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag allforion / mewnforion ac amlygiad i newidiadau mewn rhwystrau tariff a di-dariff' a 'Buddsoddiad cymunedol, economaidd a seilwaith ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau'. |
| | **Pobl sydd mewn perygl o ddiweithdra/sy'n ddi-waith** | • The UK in a Changing Europe. (Mehefin 2019). The Brexit Scorecard.<br>• Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (Medi 2019). Labour Force Survey: In employment: Wales: All.<br>• Gweler cyfeiriadau o dan 'Diogelwch swydd mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag allforion / mewnforion ac amlygiad i newidiadau mewn rhwystrau tariff a di-dariff'' |
| **Grwpiau sy'n dioddef gwahaniaethu neu anfantais gymdeithasol** | **Grwpiau pobl ddu a lleiafrifoedd ethnig** | • Wales Civil Society Forum on Brexit. (Chwefror 2019). Getting Brexit Ready: A Guide for Small to Large Third Sector Organisations in Wales.<br>• Llywodraeth Cymru. (2019). Paratoi Cymru am Brexit 'heb gytundeb': Cydlyniant cymunedol.<br>• Gweler cyfeiriadau o dan 'Colli cymhwysiad Siarter Hawliau Sylfaenol yr UE yn y DU' a 'Buddsoddiad cymunedol, economaidd a seilwaith ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau'.' |
| | **Mewnfudwyr** | • Such, E., Staniforth, R. Public Health. (Gorffennaf 2019). Public health practitioners' perspectives of migrant health in an English region. |
| | | • Wales Civil Society Forum on Brexit. (Chwefror 2019). Getting Brexit Ready: A Guide for Small to Large Third Sector Organisations in Wales.<br>• Metro. (Mawrth 2019). Anableddau Cymru: The impact of Brexit on disabled people's lives is not a Government priority |
| **Grwpiau daearyddol** | **Pobl sy'n byw mewn ardaloedd sydd â dangosyddion/ ardaloedd economaidd ac iechyd gwael yng Nghymru sydd wedi elwa'n sylweddol ar gyllid yr UE** | • Communities in Charge. (Mehefin 2019). Give people the power to prosper after Brexit.<br>• The Independent. (Mehefin 2019). Tory spending plans will strip billions from poorest areas after Brexit and give cash to richest regions, study finds.<br>• Tinbergen Institute. (Awst 2019). The Implications of Brexit for UK and EU Regional Competitiveness.<br>• Gweler cyfeiriadau o dan 'Diogelwch swydd mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag allforion / mewnforion ac amlygiad i newidiadau mewn rhwystrau tariff a di-dariff' a Buddsoddiad cymunedol, economaidd a seilwaith ar gyfer mynd i'r afael ag anghydraddoldebau'. |
| | **Ffermwyr/cymunedau gwledig** | • Sennedd Research. (Chwefror 2019). New Publication: How changes in the rural economy post-Brexit might impact upon healthcare/ health inequalities in rural Wales.<br>• Hill, B. EconPapers. (Ebrill 2019). Evaluating Brexit's impact on the social contributions made by agriculture.<br>• Davies, A.R. et al (2019). Cefnogi cymunedau ffermio yn ystod cyfnodau o ansicrwydd Fframwaith gweithredu i gefnogi iechyd meddwl a lles ffermwyr a'u teuluoedd, Iechyd Cyhoeddus Cymru a'r Sefydliad Iechyd Meddwl<br>• Gweler cyfeiriadau o dan 'Polisi / cyllid amaethyddol a rheoli tir' |
| | **Trefi porthladdoedd** | • Y Pwyllgor Materion Cymreig. (Awst 2019). Brexit, trade and customs: implications for Wales inquiry.<br>• Llywodraeth Cymru. (Medi 2019) Cynllun gweithredu ymadael 'heb gytundeb' |
| | **Trefi arfordirol e.e. gweithlu twristiaeth ac ansawdd dŵr ymdrochi** | Dim cyhoeddiadau newydd o bwys. |
| | **Pobl sy'n byw mewn ardaloedd lle gall cyflogwyr mawr adael** | • Tinbergen Institute. (Awst 2019). The Implications of Brexit for UK and EU Regional Competitiveness.<br>• Gweler y cyfeiriadau o dan 'Diogelwch swydd mewn sectorau sy'n gysylltiedig ag allforion / mewnforion ac amlygiad i newidiadau mewn rhwystrau tariff a di-dariff' |

| | | |
|---|---|---|
| **Grwpiau agored i niwed** | **Pobl sydd angen gofal iechyd a gofal cymdeithasol** | • Gweler y cyfeiriadau o dan 'Staffio Gofal Iechyd', 'Mynediad at feddyginiaethau, dyfeisiau meddygol a threialon clinigol' a 'Staffio gofal cymdeithasol' |
| | **Perchnogion/cyflogwyr busnesau bach sy'n mewnforio neu'n allforio nwyddau a gwasanaethau** | • Badiani, R. International Economics and Economic Policy. (Mawrth 2019). Outlook on UK-EU Brexit negotiations and possible economic risks.<br>• Politico. (Ebrill 2019). UK's small firms fear 'no-deal' Brexit wipeouts<br>• The UK in a Changing Europe. (Medi 2019). 'No-deal' Brexit: Issues, impacts, implications<br>• Llywodraeth y DU. (Awst 2019) Operation Yellowhammer Rhagdybiaethau cynllunio "canlyniadau gwaethaf" |
| | **Dinasyddion a theuluoedd nad ydynt yn rhan o'r UE sy'n byw yng Nghymru** | • Pwyllgor Hawliau Dynol Senedd y DU. (Mawrth 2019). Legislative Scrutiny: Immigration and Social Security Co-ordination (EU Withdrawal) Bill.<br>• The Guardian. (Mawrth 2019). Warning of legal limbo for 3m EU citizens living in UK after Brexit<br>• Reimers, K. (Ebrill 2019). Brexit and its psychological impact: A qualitative study on the well-being of EU-citizens based in the UK.<br>• Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. (Mai 2019). EU preparations for a 'no-deal' Brexit<br>• Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. (Awst 2019). The progress of the EU Settlement Scheme so far<br>• Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. (Awst 2019). Will free movement end from 31 October 2019? |
| | **Dinasyddion a theuluoedd y DU sy'n byw yn yr UE** | • Foreign and Commonwealth Office and Department for Exiting the European Union. (Awst 2019). Living in the EU: prepare for Brexit<br>• Llywodraeth y DU (Medi 2019) Government takes steps to protect healthcare access for UK nationals living in the EU after 31 October<br>• Llywodraeth y DU (Awst 2019) Operation Yellowhammer Rhagdybiaethau cynllunio "canlyniadau gwaethaf" |


Ein Blaenoriaethau
2018-2030
Meithrin a defnyddio gwybodaeth a sgiliau i wella iechyd a llesiant ledled Cymru
Dylanwadu ar benderfynyddion ehangach iechyd
Gwella llesiant meddyliol a chydnerthedd
Gweithio i wireddu dyfodol iachach i Gymru
Cefnogi gwaith i ddatblygu system iechyd a gofal gynaliadwy sy'n canolbwyntio ar atal ac ymyrryd yn gynnar
Hyrwyddo ymddygiad iach
Diogelu'r cyhoedd rhag heintiau a bygythiadau amgylcheddol i iechyd
Sicrhau dyfodol iach ar gyfer y genhedlaeth nesaf
Ein Gwerthoedd:
Cydweithio, gydag ymddiriedaeth a pharch, i wneud gwahaniaeth
GIG CYMRU NHS WALES
Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

WHIASU
Wales Health Impact
Assessment Support Unit
Uned Gymorth Asesu
Effaith ar Iechyd Cymru

GIG CYMRU NHS WALES | Iechyd Cyhoeddus Cymru
Public Health Wales

**Iechyd Cyhoeddus Cymru**
**Rhif 2 Capital Quarter**
**Stryd Tyndall**
**Caerdydd CF10 4BZ**

**Ffôn: 02920 227744**

**www.publichealthwales.org**

**Ebost: generalenquiries@wales.nhs.uk**

**@IechydCyhoeddus**

**/iechydcyhoedduscymru/**